Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Trefniadau Asesu ar gyfer Babanod a Phlant Bach 0 i 3 oed yng Nghymru






# Cynnwys


**Cyflwyniad** 4

**Adran 1: Asesu** 6

Beth yw ystyr asesu? 8

Pwy all helpu i lywio ein gwaith asesu? 9

Beth rydym yn ei asesu fel rhan o'n hymarfer o ddydd i ddydd? 10

Sut rydym yn asesu'n effeithiol? 11

Beth rydym yn ei wneud gyda'r wybodaeth asesu hon? 11

Sut mae asesu yn llywio ein gwaith cynllunio ac yn ein helpu i weld pethau o safbwynt y babi/plentyn bach? 12

Adran 1: Cwestiynau myfyriol ar gyfer gwaith asesu 13

**Adran 2: Arsylwi** 14

Beth yw arsylwi? 15

Beth rydym yn arsylwi arno a phryd? 15

Beth yw ein rôl fel yr oedolyn sy'n galluogi dysgu drwy arsylwi ar fabanod a phlant bach? 16

Beth yw'r dull Sylwi, Dadansoddi ac Ymateb? 17

Beth yw'r ffyrdd gwahanol y gallwn arsylwi? 21

Sut rydym yn cofnodi ac yn cyflwyno arsylwadau? 22

Sut rydym yn defnyddio gwaith arsylwi i lywio gwaith cynllunio? 23

**Adran 2: Cwestiynau myfyriol ar gyfer gwaith arsylwi** 24

**Adran 3: Dechrau gyda chi** 25

Pam mae meithrin cydberthnasau cadarn mor bwysig cyn i ni ddechrau ar unrhyw waith asesu? 26

Sut y dylid ymgymryd â gwaith asesu ac arsylwi? 26

Pa feysydd datblygiadol y dylem ganolbwyntio arnynt wrth wneud gwaith arsylwi ac asesu? 27

Sut y gallwn gynnwys teuluoedd wrth gefnogi datblygiad, dysgu cynnar a gofal? 27

Sut y gallwn nodi a fydd angen cymorth ychwanegol ar fabi/plentyn bach? 28

Beth yw dull cyfannol at ddatblygiad, dysgu cynnar a gofal? 28


OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54569, ISBN digidol 978-1-83745-571-3

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Adran 4: Meysydd Asesu** **29**

Meysydd asesu: cwestiynau i'w hystyried gennym wrth i ni arsylwi ar fabanod a phlant bach yn ein lleoliad:
- Datblygu Cymdeithasol ac Emosiynol 31
- Datblygiad Corfforol 31
- Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 31
- Archwilio a Chwarae 31

Dyma fi! (0-12 mis oed) : 32
- Asesu Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol 32
- Asesu Datblygiad Corfforol 35
- Asesu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 38
- Asesu Archwilio a Chwarae 42

Dwi'n archwilio! (1-2 oed): 45
- Asesu Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol 45
- Asesu Datblygiad Corfforol 48
- Asesu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 51
- Asesu Archwilio a Chwarae 55

Edrycha arna i nawr! (2-3 oed) : 58
- Asesu Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol 58
- Asesu Datblygiad Corfforol 61
- Asesu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 64
- Asesu Archwilio a Chwarae 68

**Adran 5: Rhestr Termau** **71**



# Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn wedi'u cyd-lunio ag ymarferwyr a phartneriaid allweddol ar draws y sectorau gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru, gan ddefnyddio ymarfer yng Nghymru a ddaw i'r amlwg a thystiolaeth ryngwladol. Maent wedi'u llunio i'n cefnogi ni, fel ymarferwyr, wrth i ni fagu a gofalu am fabanod a phlant bach o'u geni hyd at pan fyddant yn dair oed i greu profiadau gofal a dysgu cyson, o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar chwarae sydd wedi'u gwreiddio mewn hawliau plant ac ymarfer sy'n ddatblygiadol briodol.

Mae'r canllawiau yn adlewyrchu egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ac mae'n adeiladu ar yr ymarfer cyfoethog ac ymatebol y mae llawer ohonom eisoes yn ei gyflawni bob dydd. I rai, gall bwysleisio ymarfer presennol; i eraill, gall gynnig cyfle i fyfyrio, ailffocysu neu gyflwyno dulliau newydd.

Mae pob babi a phlentyn bach yn unigryw, gyda'i ddiddordebau, ei gryfderau, ei hunaniaeth a'i amgylchiadau ei hun. Mae'r canllawiau hyn yn cydnabod bod yn rhaid i waith asesu, arsylwi a darparu ymateb i'r anghenion unigol hyn. Nid oes unrhyw dempledi na dulliau sy'n addas i bob sefyllfa, gan ein bod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r ffyrdd gwahanol rydych chi a'ch lleoliadau yn gweithio. Mae tiwnio i mewn i fabanod a phlant bach, arsylwi a gwrando arnynt yn ofalus yn ein helpu i ddeall yn well sut i gefnogi eu dysgu, eu datblygiad a'u llesiant a chreu profiadau llawen ac ystyrlon sy'n meithrin eu chwilfrydedd a'u hyder a chreu sylfeini cryf ar gyfer dysgu gydol oes.

Mae'r canllawiau hyn yn ategu deunyddiau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar eraill, gan gynnwys y canlynol:

- Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru
- Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygu 0 i 3
- Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Pecyn cymorth ymarfer myfyriol

a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector nas cynhelir:

- Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
- Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
- Galluogi dysgu
- Cyflwyniad i Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar – Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Wedi'i Reoleiddio yng Nghymru
- Dechrau'n Deg: canllawiau.

Mae pedair rhan i'r canllawiau hyn:

- Adran 1: Asesu
- Adran 2: Arsylwi
- Adran 3: Dechrau gyda ni
- Adran 4: Meysydd asesu.

Mae **Adrannau 1 i 3** wedi'u cyflwyno mewn fformat holi ac ateb. Drwy fynd i'r afael â chwestiynau cyffredin yn uniongyrchol, nod y canllawiau hyn yw bod yn hygyrch, yn hawdd eu defnyddio a chanolbwyntio ar ymarferwyr. Mae'r fformat hwn yn ein helpu i ddod o hyd i wybodaeth glir a defnyddiol yn gyflym.

Mae **Adran 4** yn rhoi enghreifftiau ymarferol o sut y gallwch arsylwi ar gynnydd babanod a phlant bach a'u hasesu ar draws y meysydd datblygu allweddol. Mae'r enghreifftiau hyn wedi'u dylunio i'ch cefnogi i nodi ac ymateb i ddatblygiad a thaith dysgu unigryw pob babi a phlentyn bach drwy chwarae ac arferion pob dydd.

Gyda'i gilydd, mae'r adnoddau hyn yn helpu i ddarparu fframwaith clir a chydlynol ar gyfer cefnogi ymarfer blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel ledled Cymru.



# Adran 1: Asesu

Mae asesu yn rhan hanfodol o Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Mae'n ein helpu i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o ddatblygiad pob babi a phlentyn bach, fel y gallwn gefnogi ei lesiant, ymdeimlad o berthyn a'i helpu i wneud cynnydd mewn ffordd briodol.

Dylai gwaith asesu fod yn seiliedig ar ein gwybodaeth gref am ddatblygiad plant a chaiff ei ystyried yn rhan naturiol o'n hymarfer o ddydd i ddydd. Drwy waith asesu ystyrlon, gallwn wneud y canlynol:

- deall a dathlu taith datblygiad unigryw pob babi a phlentyn bach
- nodi ac ymateb i anghenion, diddordebau a hoffterau unigol
- cefnogi babanod a phlant bach i fynegi eu hunain a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed
- cynllunio profiadau cynhwysol ac ystyrlon sy'n meithrin dysgu a llesiant
- tywys cyfnodau pontio esmwyth drwy gydnabod anghenion newidiol pob babi a phlentyn bach
- sicrhau bod ein hymarfer yn cefnogi pob babi a phlentyn bach i ffynnu a theimlo'n ddiogel a'i fod yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys.

Er bod y cylch arsylwi, asesu a chynllunio yn cael ei ddefnyddio'n eang drwy'r blynyddoedd cynnar, gall y cysyniad o asesu deimlo'n ddychrynllyd weithiau. Mae'n bwysig ein bod yn teimlo'n hyderus wrth ddeall beth yw ystyr asesu, sut beth ydyw yn ymarferol a sut y gall ein helpu i ddarparu profiadau chwarae, dysgu a gofal o ansawdd uchel.

Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â phrosesau asesu ehangach yng Nghymru, fel Rhaglen Plentyn Iach Cymru, gan sicrhau ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol i gefnogi datblygiad pob babi a phlentyn bach drwy ofal ymatebol sy'n seiliedig ar wybodaeth.



Beth yw ystyr asesu?

Pam y dylem asesu?

Beth yw ein rôl, fel yr oedolyn sy’n galluogi dysgu, wrth asesu?

Pwy all helpu i lywio ein gwaith asesu?

Beth rydym yn ei asesu fel rhan o’n hymarfer o ddydd i ddydd?

Sut rydym yn asesu’n effeithiol?

Beth rydym yn ei wneud gyda’r wybodaeth asesu hon?

Sut mae asesu yn llywio ein gwaith cynllunio ac yn ein helpu i weld pethau o safbwynt y babi/plentyn bach?



## Beth yw ystyr asesu?

Asesu yw cylch o arsylwadau gofalus sy'n ein helpu i ddeall chwarae, ymddygiad, gofal, dysgu a datblygiad babanod a phlant bach. Mae ymddygiad babi a phlentyn bach drwy ddulliau rhyngweithio ymatebol yn ein helpu i ddeall ei anghenion datblygu, y cynnydd a wna ac mae'n ein tywys wrth gynllunio ar gyfer ei gamau nesaf.

Rydym yn cydnabod, yn y gorffennol, y gall gwaith asesu fod wedi canolbwyntio ar ganlyniadau – fel p'un a oedd babi neu blentyn bach wedi cyrraedd lefel benodol – ac fe'i defnyddiwyd yn aml fel mesur o atebolrwydd. Mae'n galonogol gweld newid tuag at ddull sy'n blaenoriaethu gwaith asesu parhaus, ymatebol sy'n seiliedig ar gydberthnasau cryf. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu taith, diddordebau a chyd-destun unigryw pob babi a phlentyn bach. Er mwyn sicrhau ein bod yn cefnogi datblygiad babanod a phlant bach, dylem gofio'r canlynol:

| Dylai gwaith asesu wneud y canlynol: | Ni ddylai gwaith asesu wneud y canlynol: |
|---|---|
| • cynnal ein ffocws ar anghenion presennol y babi a/neu'r plentyn bach | • bod yn rhestr wirio, yn ddigwyddiad untro neu'n gyfres o dasgau |
| • nodi'r hyn y gall babanod a phlant bach ei wneud, bod yn seiliedig ar gryfderau, cydnabod galluoedd babanod a phlant bach a ble mae angen cymorth | • cael ei ddefnyddio fel mesur atebolrwydd |
| • ein helpu i ddeall sut mae pob babi neu blentyn bach yn datblygu er mwyn i ni ddarparu'r cymorth priodol | • cael ei ystyried fel dull o gasglu tystiolaeth ar gyfer cyrff rheoleiddio gofal plant ac addysg[1] a gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn unig |
| • bod yn rhan o'n hymarfer o ddydd i ddydd a helpu i greu darlun cyfannol o'r babi a'r plentyn bach a deall y cynnydd y mae'n ei wneud dros amser | • canolbwyntio'n llwyr ar fylchau/diffygion canfyddedig mewn datblygiad |
| • bod yn ystyrlon ac yn ddefnyddiol i'n hymarfer ac i rieni/gofalwyr | • categoreiddio neu labelu babanod a phlant bach |
| • cynnwys safbwynt y babi a'r plentyn bach a'i rieni/gofalwyr | • bod ar wahân i chwarae, gofal a datblygiad |
| • ein helpu i weld pethau o safbwynt y babi a'r plentyn bach (drwy ei lygaid) | • amharu ar gyfleoedd chwarae dilys |
| • bod yn anymwthiol | • bod yn feichus a llafurus |
| • cynnwys dadansoddiad o'n harsylwadau | • bod yn fater i un oedolyn ar ei ben ei hun |
| • eich hysbysu chi a'ch ymarfer/gwaith cynllunio | • cael ei gwblhau ar wahân |
| • bod yn gyfrifoldeb a rennir, lle rydym yn cydweithio'n agos â'r holl staff, teuluoedd a'r gymuned ehangach i greu darlun manwl o ddatblygiad pob babi neu blentyn bach | • bod angen ei ysgrifennu |

1 Fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn

## Pwy all helpu i lywio ein gwaith asesu?

Mae babanod a phlant bach yn rhan ganolog o'n gwaith asesu, a dylem eu cydnabod fel cyfranogwyr gweithredol yn eu gofal, eu datblygiad a'u dysgu. Po fwyaf a wyddom am fabanod a phlant bach a'u datblygiad, y mwyaf y dylem werthfawrogi pa mor hynod yw'r cyfnod hwn yn ystod plentyndod cynnar. Dylem weithio gyda rhieni/gofalwyr ac unigolion allweddol eraill i feithrin dealltwriaeth gyffredin o anghenion a diddordebau pob babi a phlentyn bach a'i gyfleoedd i ddatblygu.

Bydd hyn yn cefnogi ein proses o wneud penderfyniadau am y ffordd orau o helpu babanod a phlant bach i wneud cynnydd ar eu taith ddatblygiadol.

Er mwyn helpu i ddatblygu darlun cyfannol o bob babi a phlentyn bach, efallai y byddwn hefyd am ymgysylltu â'r canlynol:

Llais y babi a'r plentyn bach (a yw gwaith cynllunio yn adlewyrchu ein plant, eu teuluoedd a'u cymunedau)

Rhieni/gofalwyr a theuluoedd

Gweithwyr proffesiynol Blynyddoedd Cynnar (Awdurdod Lleol/ sefydliadau cysylltiedig)

Gweithwyr iechyd proffesiynol

Ymarferwyr/ lleoliadau eraill



## Beth rydym yn ei asesu fel rhan o'n hymarfer o ddydd i ddydd?

Yn dilyn ein hasesiadau cyntaf, dylid ymgorffori prosesau arsylwi parhaus yn ein rhyngweithio dyddiol â babanod a phlant bach. Yn hytrach na chanolbwyntio ar restrau gwirio sefydlog neu ganlyniadau a bennwyd ymlaen llaw, dylem gymryd dull ymatebol, gan sicrhau bod gwaith asesu yn cefnogi dealltwriaeth o fannau cychwyn pob babi a phlentyn bach ac sy'n adlewyrchu ei anghenion a'i brofiadau presennol.

Rydym yn sylwi'n ofalus ar y newidiadau bach ond ystyrlon yn sgiliau cyfathrebu, symudiadau a gweithredoedd babanod a phlant bach wrth iddynt dyfu. Anaml y bydd datblygiad yn llinellol. Fel ymarferwyr, mae ein hasesiadau yn ein helpu i nodi a dathlu twf, datblygiad a llesiant babanod a phlant bach. Er mwyn ein cefnogi i wneud hyn mewn modd ymatebol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, rydym yn canolbwyntio ar y meysydd asesu canlynol:

- datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
- datblygiad corfforol
- lleferydd, iaith a chyfathrebu
- archwilio a chwarae.

Mae'r meysydd hyn yn adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf ym mlynyddoedd cynharaf bywyd. Mae cysylltiad agos rhyngddynt â Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygu 0 i 3 – Perthyn, Cyfathrebu, Archwilio, Datblygiad Corfforol a Llesiant – a chreu sylfeini cryf ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Drwy ganolbwyntio ar y meysydd hyn, rydym yn sicrhau bod ein dull gweithredu yn parhau i fod yn gysylltiedig, yn gyson ac yn ystyrlon drwy flynyddoedd cynnar plant. Maent hefyd yn gweithredu fel rhagflaenwyr i'r meysydd a ddefnyddir yn Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, gan ein helpu i gymryd dull cyson a chydgysylltiedig mewn ymarfer blynyddoedd cynnar.

Drwy ddadansoddi ein harsylwadau drwy'r lens hon, gallwn ganolbwyntio ar yr hyn sydd fwyaf perthnasol i bob babi a phlentyn bach ar ei gam datblygu presennol. Mae ein dealltwriaeth yn llywio gwaith cynllunio ymatebol, gan ein helpu i lywio amgylcheddau dysgu a rhyngweithio sy'n meithrin chwilfrydedd, hyder a chysylltiad.

Efallai bod rhai babanod a phlant bach yn mynychu mwy nag un lleoliad, felly mae'n bwysig rhannu gwybodaeth berthnasol pan fo modd. Mae cydweithio yn helpu i feithrin dealltwriaeth fwy cyflawn o gynnydd pob plentyn ac mae'n sicrhau parhad yn eu gofal a'u profiadau.

Yn **Adran 4** o'r canllawiau hyn, ceir cwestiynau myfyriol ar gyfer pob maes i'n helpu i feddwl yn ddwys am yr hyn rydym yn sylwi arno yn ein hymarfer pob dydd. Ategir y cwestiynau hyn gan enghreifftiau o'r hyn y gallwn arsylwi arno wrth i fabanod a phlant bach chwarae, archwilio a chymryd rhan mewn arferion pob dydd. Nid rhestrau gwirio yw'r rhain, ond argymhellion i gefnogi ein ffordd o feddwl proffesiynol, ein sgyrsiau a'n gwaith cynllunio wrth i ni ymateb i anghenion a diddordebau unigryw pob babi a phlentyn bach.

## Sut rydym yn asesu'n effeithiol?

Mae gwaith asesu yn dechrau drwy fynd ati o ddifrif i weld babanod a phlant bach a gwrando arnynt er mwyn deall eu hanghenion, eu diddordebau a'u llesiant unigol. Mae arsylwi ar fabanod a phlant bach yn fraint sy'n ein galluogi i groesawu rhyfeddod eu teithiau unigryw.

Mae defnyddio dull "Sylwi, Dadansoddi ac Ymateb" (gweler tudalen 18) yn integreiddio gwaith asesu yn naturiol mewn ymarfer pob dydd. Drwy sylwi, dadansoddi ac ymateb rydym yn rhoi sylw manwl i'r hyn y mae babanod a phlant bach yn ei ddangos i ni drwy eu gweithredoedd a'u sgiliau cyfathrebu, gan fyfyrio ar yr hyn y mae hyn yn ei ddweud wrthym am eu hanghenion a'u diddordebau a mabwysiadu ein gofal a'n profiadau yn ofalus i gefnogi eu datblygiad parhaus. Mae pob achos o ryngweithio yn cynnig cyfle i arsylwi ar ddatblygiad, i fyfyrio ar gynnydd ac i addasu ein darpariaeth yn briodol. Mae pob mynegiad, ystum a sgil a ddaw i'r amlwg yn cynnig dealltwriaeth sy'n ein helpu i gynllunio profiadau sy'n ennyn llawenydd, sy'n cefnogi dysgu ac sy'n meithrin llesiant.

Mae gwaith asesu yn broses barhaus, gyfannol, wedi'i ymgorffori mewn cydberthnasau cynnes ac ymatebol ac wedi'i deilwra i bob babi a phlentyn bach. Drwy gasglu dealltwriaeth drwy arsylwadau anffurfiol a bwriadol a thrwy fyfyrio ar y momentau "aha!" hynny, rydym yn creu profiadau llawen ac ystyrlon sy'n dilyn eu chwilfrydedd a'u hanghenion datblygiadol.

Mae gweithio mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr yn atgyfnerthu ein dealltwriaeth ymhellach. Mae rhannu arsylwadau a dealltwriaeth yn meithrin gwaith cydweithredu, gan sicrhau bod teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i gefnogi datblygiad eu plentyn gartref.

Yn dilyn y sgyrsiau hyn â theuluoedd, efallai y byddwn yn ceisio cyngor ac arweiniad gan weithwyr proffesiynol ychwanegol[2] i ddiwallu anghenion unigol pan fo angen. Mae'r dull cydweithredol hwn yn creu amgylcheddau meithringar a chynhwysol lle gall pob babi a phlentyn bach ffynnu.

## Beth rydym yn ei wneud gyda'r wybodaeth asesu hon?

Mae'r pethau rydym yn eu dysgu gan rieni/gofalwyr, ymarferwyr eraill a babanod a phlant bach eu hunain yn sicrhau dealltwriaeth werthfawr – fel perlau o ddealltwriaeth. Drwy arsylwi ar fabanod a phlant bach a thiwnio i mewn i'w ffyrdd unigol o gyfathrebu a mynegi, gallwn gynllunio amgylcheddau o ansawdd uchel a phrofiadau ystyrlon sy'n eu helpu i dyfu.

Drwy rannu ein dealltwriaeth mewn cyfarfodydd tîm neu ag eraill sy'n cefnogi babanod a phlant bach, rydym yn sicrhau bod pob un ohonom yn cydweithio i'w helpu i ffynnu.

Drwy fyfyrio ar ein trafodaethau a dadansoddi ein harsylwadau, gallwn benderfynu ar y ffyrdd gorau o gefnogi cynnydd pob babi a phlentyn bach. Gallai hyn olygu cydweithio i benderfynu sut i gefnogi'r babanod a phlant bach – boed hynny drwy newid sut rydym yn rhyngweithio, sicrhau bod yr amgylchedd yn fwy ysgogol, neu ychwanegu profiadau newydd. Drwy feithrin cydberthnasau cadarnhaol â rhieni a gofalwyr, a rhannu dealltwriaeth ystyrlon o arsylwadau dyddiol, gallwn gynnig darlun mwy llawn o gryfderau, anghenion a chynnydd unigryw pob babi a phlentyn bach wrth roi cyfleoedd gwerthfawr i rieni ddysgu a mabwysiadu arferion gorau o'r lleoliad.



2 Er enghraifft arweinwyr awdurdodau lleol, sefydliadau cysylltiedig/ gweithwyr iechyd proffesiynol

Drwy'r sgyrsiau parhaus hyn, rydym yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r babi neu blentyn bach, gan sicrhau bod ymarferwyr a theuluoedd yn cydweithio i gefnogi datblygiad y babi neu'r plentyn bach mewn modd cyfannol a chydweithredol.

Gallwn rannu gwybodaeth am y canlynol:

- llesiant eu babi neu blentyn bach
- y cynnydd y mae eu babi neu blentyn bach yn ei wneud
- sut y byddwn yn cefnogi cynnydd
- sut y gellir cefnogi cynnydd gartref.

## Sut mae asesu yn llywio ein gwaith cynllunio ac yn ein helpu i weld pethau o safbwynt y babi/plentyn bach?

Dylai ein gwaith cynllunio[3] fod yn fwriadol, yn ymatebol ac yn fyfyriol, wedi'i lywio gan yr hyn rydym yn arsylwi arno a'r hyn rydym yn ei ddysgu gan ein babanod a'n plant bach bob dydd. Mae gwaith asesu yn golygu mwy na dim ond chwilio am gynnydd – mae'n golygu gweld y byd drwy lygaid y babi neu'r plentyn bach. Drwy diwnio i mewn i'w ciwiau – ystumiau, mynegiant wyneb, gweithredoedd a'r hyn maent yn ei leisio – byddwn yn dechrau gweld chwarae o'u safbwynt nhw. Mae hyn yn ein helpu i ddeall sut mae babanod a phlant bach yn mynd ati i chwarae a dysgu.

3 Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar - Fframwaith Ansawdd



# Gwaith asesu – Cwestiynau myfyriol

- Sut y gallaf gydweithio ag eraill i gasglu gwybodaeth er mwyn cefnogi babanod a phlant bach?
- Sut y gallaf wrando’n weithredol ar fabanod a phlant bach ac ymateb iddynt, gan gynnwys eu sgiliau cyfathrebu dieiriau, er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a’u parchu?
- Sut mae fy ngwaith asesu yn effeithio’n gadarnhaol ar fy ymarfer?
- Ym mha ffyrdd y gallaf sicrhau bod fy asesiadau yn canolbwyntio ar anghenion presennol pob babi a phlentyn bach yn hytrach na defnyddio dull rhestr wirio a bennwyd ymlaen llaw.
- Sut y gallaf gydweithio â rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i feithrin dealltwriaeth gyfannol o ddatblygiad, cryfderau ac anghenion pob babi a phlentyn bach?
- Sut mae fy ymarfer yn sicrhau tegwch a chynhwysiant, gan ystyried cefndir, hunaniaeth, diwylliant, hil, ethnigrwydd, iaith a galluoedd pob babi a phlentyn bach yn ein gwaith cynllunio a rhyngweithio?



# Adran 2: Arsylwi

Mae arsylwi yn rhan naturiol o'r hyn a wnawn bob dydd mewn Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Drwy gymryd amser i wylio pob babi a phlentyn bach, gwrando arnynt a chysylltu â nhw, byddwn yn meithrin cydberthnasau cryf a dibynadwy ac yn dysgu'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae arsylwi yn ein helpu i sylwi ar yr hyn sy'n ennyn eu chwilfrydedd, sut maent yn teimlo, beth maent yn ei fwynhau a sut mae eu sgiliau'n datblygu.

Mae hefyd yn ein helpu i nodi pan fydd angen cymorth ychwanegol arnynt o bosibl. Drwy ddeall a dathlu taith unigryw pob plentyn, gallwn gynllunio profiadau sy'n dilyn eu diddordebau, sy'n cefnogi eu llesiant ac sy'n eu helpu i gymryd eu camau dysgu a datblygu nesaf. Mae arsylwi yn rhan ganolog o waith asesu a chynllunio, gan ein helpu i ymateb mewn ffyrdd sydd wir yn diwallu anghenion pob babi a phlentyn bach yn ein gofal.



## Beth yw arsylwi?

Mae arsylwi yn rhan allweddol o’r broses o ddeall a chefnogi chwarae, dysgu a gofal babanod a phlant bach. Mae’n cynnwys gwylio babanod a phlant bach, gwrando arnynt a sylwi ar sut maent yn archwilio, yn chwarae, yn ymgysylltu ac yn cysylltu. Drwy arsylwi, gallwn ddatblygu darlun cyfoethog o brofiadau a llesiant emosiynol pob babi a phlentyn bach, ei ddiddordebau a’i daith dysgu.

Mae arsylwi yn broses fyfyriol sy’n ein hannog i fod yn bresennol ac yn ymatebol, gan ddefnyddio’r hyn rydym yn ei weld a’i glywed i lywio ein rhyngweithio, ein profiadau a’r amgylchedd mewn ffyrdd sy’n cefnogi datblygiad pob babi a phlentyn bach.

Mae arsylwi hefyd yn ein galluogi i fyfyrio ar ein hymarfer, fel y caiff ei annog yn y Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

## Ar beth rydym yn arsylwi a phryd?

Mae blynyddoedd cynharaf babi a phlentyn bach yn gymharol fyr ac yn arwyddocaol iawn i’w ddatblygiad cyffredinol. Dylai ein harsylwadau gynnwys cyfeiriad at yr wybodaeth a’r profiad unigryw y bydd pob babi a phlentyn bach yn eu cyflwyno i’r lleoliad. Mae’n bwysig rhoi gwerth ar y cyfnod hwn a meithrin natur chwareus a chwilfrydig plant. Bydd babanod a phlant bach yn datblygu’n gyflym iawn yn ystod pum mlynedd gyntaf ei fywyd, wrth i’r parablu droi’n sgwrs ac wrth i symudiadau corfforol ddod yn fwyfwy cymhleth a soffistigedig. Dylem ddefnyddio’r wybodaeth werthfawr hon i lywio ein hasesiadau. Dylai ein harsylwadau fod yn sbardun ar gyfer ein gwaith o gynllunio profiadau dysgu ac amgylcheddau yn y dyfodol.



*Ewch ati i sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o ddatblygiad plentyn drwy arsylwi a sylwi ar yr hyn y mae babanod a phlant bach yn ei wneud, dadansoddwch yr hyn rydych wedi’i weld a gofynnwch i’ch hun ‘pam y mae’n bwysig?’, gan gysylltu’r hyn rydych wedi’i weld â theori ac arferion gorau i lunio ymateb posibl.*



Mae arsylwi ar fabanod a phlant bach ar draws amrywiaeth o gyd-destunau pob dydd yn helpu i greu darlun cyfannol o'u datblygiad, wedi'i lywio gan y meysydd asesu (tudalennau 29-70) ac yn cyd-fynd â Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau datblygiadol 0 i 3. Mae hyn yn ein helpu i nodi patrymau yn eu chwarae, eu sgiliau cyfathrebu a'u hymatebion emosiynol. Mae angen i arsylwadau fod yn ystyrlon a phwrpasol. Nid wedi'u hysgrifennu dim ond er mwyn gwneud hynny. Dylent roi cipolwg – gan nodi pwysigrwydd datblygiad.

Rydym yn arsylwi ar fabanod a phlant bach drwy gydol y dydd mewn sefyllfaoedd gwahanol, gan gynnwys:

- **Chwarae** – dan do ac yn yr awyr agored, mewn chwarae annibynnol a chwarae â chymorth.
- **Arferion pob dydd** – amser prydau, newid cewynnau, amseroedd cysgu a chyfnodau pontio.
- **Rhyngweithio cymdeithasol** – gyda rhieni, gofalwyr, ymwelwyr, plant eraill ac ymarferwyr.
- **Profiadau cyfarwydd a newydd** – adegau pan fydd babanod a phlant bach yn archwilio rhywbeth newydd, yn profi syfrdandod a rhyfeddod, neu'n ailymweld â'u hoff weithgareddau.
- **Plant ar eu pen eu hunain a gyda phlant eraill** – arferion pob dydd, profiadau chwarae, archwilio'r amgylchedd.

## Beth yw ein rôl, fel yr oedolyn sy'n galluogi dysgu, wrth arsylwi ar fabanod a phlant bach?

Dylai sgiliau meddwl babanod a phlant bach wrth chwarae, dysgu a gofal fod o ddiddordeb i ni, a dylem eu cefnogi. Dylem sicrhau bod gennym ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plentyn a'i defnyddio i fyfyrio ar ein hymarfer a'n darpariaeth a'u gwella.

Dylai ein harsylwadau helpu i gynllunio ar gyfer dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'i ddefnyddio, er mwyn cefnogi pob babi a phlentyn bach i wneud cynnydd. Bydd adegau pan fyddwn yn dewis oedi, er mwyn arsylwi a gwrando, gan adael i'r chwarae ddatblygu. Rydym yn gwneud hyn gan ein bod yn cydnabod y gallai ein cyfraniad neu ein hymyrraeth fod yn ddigroeso a/neu darfu ar y chwarae. Bydd rhannu ein harsylwadau ag eraill mewn amgylchedd diogel a chefnogol yn ein helpu i ddysgu oddi wrth ein gilydd, gan ddefnyddio ein cryfderau ein gilydd a chodi ymwybyddiaeth o unrhyw ragfarn ddiarwybod a all fod gennym, a'i herio.





## Beth yw'r dull Sylwi, Dadansoddi ac Ymateb?

Mae'r dull hwn yn ein helpu i wneud penderfyniadau meddylgar pob dydd sy'n cefnogi taith unigryw pob babi a phlentyn bach.

- Sylwi ar yr hyn sy'n ennyn diddordeb babi neu blentyn bach, sut mae'n ymgysylltu a beth sy'n dylanwadu ar ei gyfranogiad a'i lesiant.
- Dadansoddi beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am ei ddatblygiad, ei anghenion a'i brofiadau.
- Ymateb drwy addasu ein rhyngweithio, ein hamgylcheddau a'n profiadau i gefnogi ei dwf yn y ffordd orau.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod ein harsylwadau yn ymarfer ymatebol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n meithrin chwilfrydedd, hyder a llesiant. Mae'n gweithio ar y cyd â'r Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ar gyfer plant 3-4 oed, gan gefnogi taith ddi-dor a chysylltiedig i blant o'u geni hyd at y blynyddoedd meithrin.


Fel oedolion sy’n galluogi dysgu, ein rôl yw:

## Sylwi

Rydym yn arsylwi â gofal a chwilfrydedd, gan diwnio i mewn i sut mae babanod a phlant bach yn datblygu, yn dysgu ac yn archwilio drwy chwarae. Rydym yn sylwi ar y canlynol:

- newidiadau yn eu llesiant
- beth sy’n ennyn eu chwilfrydedd a’u cyffro
- sut maent yn mynegi eu hunain, boed hynny drwy ystumiau, mynegiant wyneb, seiniau neu eiriau
- sut maent yn ymgysylltu â’u hamgylchedd a’r byd o’u cwmpas
- eu lefelau hyder, gwydnwch ac annibyniaeth wrth iddynt ymgysylltu mewn chwarae ac ymateb i arferion gofal pob dydd
- sut mae babanod a phlant bach yn ymdopi â chyfnodau pontio a newid
- sut mae babanod a phlant bach yn sylwi ar nodweddion tebyg a gwahanol a sut rydym ni fel oedolion yn cefnogi eu datblygiad gan ddeall eu hil, diwylliant a nodweddion unigryw eu hunain ac eraill.


Rydym yn arsylwi drwy fod yn bresennol yn eu chwarae, gan wylio, gwrando ac weithiau ymuno pan gawn wahoddiad – gan barchu eu dewisiadau a dilyn eu harweiniad bob amser. Mae ein harsylwadau yn ein helpu i greu darlun llawn o bob babi a phlentyn bach, y byddwn yn eu rhannu â chydweithwyr a theuluoedd er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth gorau posibl.



# Dadansoddi

Ar ôl arsylwi, byddwn yn myfyrio ar yr hyn a welwyd ac a glywyd gennym. Mae hyn yn ein helpu i wneud y canlynol:

- deall eu ffyrdd dewisol o chwarae ac archwilio (fel drwy symudiadau, profiadau synhwyraidd neu weithredoedd a ailadroddir)
- adnabod diddordebau newydd y mae babanod neu blant bach yn eu datblygu
- nodi cynnydd babanod a phlant bach
- nodi meysydd lle gallai fod angen cymorth ychwanegol, anogaeth neu her bellach
- ystyried sut mae eu profiadau yn cysylltu â'u bywyd cartref, eu diwylliant a'u cymuned.







# Ymateb

Yn seiliedig ar ein harsylwadau a'n myfyrdodau, rydym yn:

- **addasu ein rhyngweithio** - gan wybod pryd i gamu i mewn a phryd i adael i chwarae fynd rhagddo'n naturiol
- **gwella'r amgylchedd** – cynnig deunyddiau newydd neu newid ardaloedd er mwyn annog y babi a'r plentyn bach i archwilio ac ymgysylltu
- **adeiladu ar ddiddordebau** – defnyddio chwilfrydedd babanod a phlant bach er mwyn creu cyfleoedd chwarae ystyrlon
- **cynnig sicrwydd ac anogaeth** – eu helpu i deimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn gyffrous i roi cynnig ar bethau newydd.

Weithiau, byddwn yn ymateb yn y foment, gan fanteisio ar gyfleoedd chwarae a dysgu cyfoethog wrth iddynt godi. Ar adegau eraill, byddwn yn camu'n ôl ac yn myfyrio (yn unigol a gydag eraill) ar sut i addasu'r amgylchedd neu'r profiadau er mwyn diwallu eu hanghenion yn well y tro nesaf.








## Beth yw'r ffyrdd gwahanol y gallwn arsylwi?

Dylai arsylwi ar fabanod a phlant bach fod yn broses naturiol ac ymatebol, gan sicrhau ein bod yn tiwnio i mewn i'w hanghenion, eu diddordebau a'u datblygiad. Dylai arsylwadau fod yn bwrpasol, yn hydrin ac yn canolbwyntio ar y babi a'r plentyn bach, yn hytrach nag ar gyfer mesur atebolrwydd. Mae'r ffocws ar ddeall taith unigryw pob babi a phlentyn bach ac addasu ein rhyngweithio a'n profiadau yn unol â hynny.

Mae ffyrdd gwahanol y gallwn arsylwi er mwyn creu darlun clir o'r modd y mae babanod a phlant bach yn dysgu ac yn datblygu:

- **Arsylwadau digymell** – Sylwi ar foment aha/waw wrth i fabi neu blentyn bach chwarae neu ryngweithio a'u cofnodi.
- **Arsylwadau â ffocws** – Gwylio babi a phlentyn bach am gyfnod penodol neu ddilyn ei ryngweithio a'i ymddygiadau dros amser. (Gellir cyfeirio at hyn fel arsylwadau a amserwyd).
- **Arsylwadau ar gyfer gwaith asesu datblygiadol** – Nodi cerrig milltir a meysydd lle gall fod angen cymorth ar fabi neu blentyn bach.
- **Arsylwadau a gynlluniwyd** – Arsylwi ar feysydd dysgu neu ddatblygu penodol i wella ein dealltwriaeth o gynnydd babi a phlentyn bach.



*Bydd defnyddio amrywiaeth o ddulliau arsylwi yn sicrhau ein bod yn meithrin dealltwriaeth fanwl o bob babi a phlentyn bach.*

## Sut rydym yn cofnodi ac yn cyflwyno ein harsylwadau?

Gellir cofnodi a chyflwyno arsylwadau mewn sawl ffordd a dylent fod yn hyblyg ac yn ddatblygiadol briodol. Gallent gynnwys:

- **Proffiliau un dudalen** – rhoi cipolwg ar gryfderau, hoffter ac anghenion cymorth babi a phlentyn bach.
- **Sosiogram** – Adnoddau gweledol (fel diagram neu fap syml) sy'n eich helpu i weld a deall y cydberthnasau cymdeithasol a'r rhyngweithio rhwng babanod a phlant bach.
- **Adegau arbennig/nodiadau byr neu nodiadau gludiog** – cofnodi adegau arwyddocaol yn niwrnod y babi a'r plentyn bach, gan gynnwys yr hyn y mae wedi'i ddweud neu ei wneud.
- **Dewisiadau unigol plant** – Arsylwi ar y penderfyniadau a wna plentyn drwy gydol ei ddiwrnod a'u cofnodi – fel ble y bydd yn mynd, beth mae'n chwarae ag ef a gyda phwy y mae'n rhyngweithio – er mwyn deall ei gymhellion, ei arddull dysgu a'i lesiant yn well.
- **Samplu amser (dewisiadau)** – Ffordd o arsylwi ar ba mor aml y bydd babi a phlentyn bach yn dewis gweithgareddau neu adnoddau penodol dros gyfnod o amser a'u cofnodi, gan helpu ymarferwyr i ddeall diddordebau a hoffterau plentyn.
- **Samplu amser (amgylcheddau)** – Dull o gofnodi pa ardaloedd o'r lleoliad y mae babanod a phlant bach yn eu defnyddio ar adegau penodol, gan roi dealltwriaeth o sut mae'r amgylchedd yn cefnogi cyfleoedd i chwarae a dysgu neu'n cyfyngu arnynt.
- **Naratifau byr** – Nodi rhyngweithio allweddol, sgiliau sy'n dod i'r amlwg a chynnydd dros amser.
- **Straeon dysgu** – nodi adegau o chwilfrydedd, chwarae a darganfod.
- **Naratifau hir** – Cyfrif ysgrifenedig manwl o chwarae neu brofiad plentyn dros gyfnod hwy, gan nodi ei iaith, ei weithredoedd, ei ryngweithio a'i ffordd o feddwl er mwyn helpu ymarferwyr i fyfyrio'n ddwfn ar y dysgu a'r datblygiad.
- **Cofnodlyfrau datblygiadol** – dogfennu profiadau drwy ffotograffau, nodiadau a myfyrdodau.
- **Apiau digidol** – defnyddio apiau neu lwyfannau i olrhain a rhannu dysgu â theuluoedd.

Os byddwn yn dewis cofnodi arsylwadau, dylem wneud hynny mewn modd sensitif, gan sicrhau nad yw'n amharu ar chwarae babanod a phlant bach. Bydd adegau pan fyddwn yn **cymryd cam yn ôl er mwyn arsylwi a gwrando,** gan adael i'r gofod ddatblygu'n naturiol. Byddwn yn gwneud hyn am ein bod yn deall **nad oes angen ein presenoldeb na'n cyfranogiad bob amser** ac y gallai amharu ar archwiliad babi a phlentyn bach. Drwy rannu ein harsylwadau ag eraill mewn amgylchedd cefnogol, gallwn ddysgu oddi wrth ein gilydd, dathlu ein cryfderau a myfyrio ar unrhyw ragfarn ddiarwybod, gan sicrhau ein bod yn cynnig y profiadau gorau posibl i bob babi a phlentyn bach.

Ar adegau, bydd arsylwadau yn ein helpu i nodi anghenion cymorth ychwanegol. Pan fo angen, gallwn gasglu arsylwadau allweddol dros amser er mwyn rhannu'r wybodaeth â gweithwyr proffesiynol eraill. Gall y cofnodion hyn gefnogi trafodaethau, atgyfeiriadau ac ymyriadau wedi'u teilwra, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael y cymorth cywir i ffynnu.

## Sut y gallwn ddefnyddio gwaith arsylwi i lywio ein gwaith cynllunio?

Dylid defnyddio arsylwadau bob amser i lywio'r ffordd rydym yn cefnogi chwarae, dysgu a gofal babanod a phlant bach, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael ei diwallu. Gallwn ddefnyddio'r **meysydd asesu** ynghyd â Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar: Llwybrau datblygu 0 i 3 i wneud y canlynol:

- nodi beth y gall babi a phlentyn bach ei wneud nawr
- myfyrio ar sut mae'n ymgysylltu â rhyngweithio, profiadau a'i amgylchedd
- nodi ble y gall fynd nesaf yn ei ddatblygiad
- cynllunio ac addasu ein hymarfer a'n darpariaeth sy'n ymateb i'w ddiddordebau a'i anghenion.





## Gwaith arsylwi – Cwestiynau myfyriol

- I ba raddau ydw i'n cymhwyso/defnyddio amrywiaeth o ddulliau arsylwi?
- Sut ydw i'n sicrhau nad yw fy mhrosesau arsylwi yn torri ar draws chwarae'r babanod a phlant bach?
- I ba raddau ydw i'n casglu ac yn crynhoi arsylwadau ar gyfer pob babi a phlentyn bach?
- Sut ydw i'n defnyddio'r dull "arsylwi, dadansoddi ac ymateb" yn ein hymarfer bob dydd i greu cyfleoedd dysgu ystyrlon a difyr i fabanod a phlant bach?
- Sut y galla i ddefnyddio gwybodaeth am ddatblygiad plentyn i wella darpariaeth ac ymarfer?
- I ba raddau ydw i'n rhannu fy arsylwadau â rhieni a gofalwyr? A yw'n broses rannu ddwyffordd?



# Adran 3: Dechrau Gyda Chi

Mae deall datblygiad unigryw pob babi a phlentyn bach yn hanfodol i feithrin ei brofiadau cynnar. Pan fydd babi neu blentyn bach yn ymuno â ni i ddechrau – boed hynny mewn meithrinfa, grŵp chwarae, gyda gwarchodwr plant neu hyd yn oed wrth symud o un ystafell i'r llall – mae'n bwysig ein bod yn cymryd yr amser i ddod i'w adnabod yn dda iawn. Drwy arsylwi ar sut mae'n chwarae, yn cyfathrebu, yn symud ac yn rhyngweithio a thrwy ddysgu am ei ddiddordebau, ei arferion a beth sy'n ei helpu i deimlo'n ddiogel, byddwn yn dechrau meithrin dealltwriaeth ystyrlon o bob babi a phlentyn bach. Nid oes a wnelo hyn â mesur na chymharu.

Mae'n golygu nodi ble mae pob babi neu blentyn bach wedi'i gyrraedd ar ei daith dysgu, fel y gallwn gynnig profiadau gofal, chwarae a dysgu sy'n diwallu ei anghenion o'r dechrau'n deg.





## Pam mae meithrin cydberthnasau cadarn mor bwysig cyn i ni ddechrau ar unrhyw waith asesu?

Gall dechrau mewn amgylchedd newydd fod yn gam arwyddocaol i fabanod a phlant bach. Cyn i ni ddechrau archwilio eu datblygiad, rhaid i ni sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Sicrhau cydberthnasau dibynadwy yw'r sail ar gyfer dysgu cynnar, gan roi'r hyder i blant archwilio ac ymgysylltu ar eu cyflymder eu hunain.

## Sut y dylid ymgymryd â gwaith asesu ac arsylwi?

Nid yw gwaith asesu ar y cam hwn yn dasg ar wahân. Mae wedi'i ymgorffori yn ein rhyngweithio bob dydd. Rydym yn tiwnio i mewn i bob babi a phlentyn bach yn ei chwarae a'i arferion, gan ddefnyddio'r adegau hyn i sylwi ar sut mae'n mynegi ei hun, yn archwilio ei amgylchedd ac yn ymateb i eraill.

Yn hytrach na defnyddio dulliau ffurfiol neu restrau gwirio, mae'r dull ymatebol hwn yn ein helpu i ddeall datblygiad mewn amser real ac addasu ein cymorth yn unol â hynny. Mae hefyd yn creu cyfleoedd ar gyfer deialog broffesiynol o fewn timau, gan sicrhau dealltwriaeth gyffredin o gynnydd pob babi a phlentyn bach.

## Pa feysydd datblygiadol y dylem ganolbwyntio arnynt wrth wneud gwaith arsylwi ac asesu?

Wrth arsylwi ar fabanod a phlant bach a'u cefnogi, rydym yn cymryd dull cyfannol – gan ystyried y plentyn cyfan a sut mae'n datblygu ar draws meysydd rhyng-gysylltiedig. Mae'r safbwynt eang hwn yn ein helpu i nodi cryfderau, diddordebau a sgiliau unigryw y plentyn a ddaw i'r amlwg ac yn sicrhau bod ein cymorth yn ymatebol ac yn gynhwysfawr.

Mae'r meysydd datblygiadol hyn yn gweithio law yn llaw â Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygu 0 i 3 ac yn gweithredu fel rhagflaenwyr i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir – gan gefnogi dull cyson a chysylltiedig drwy gydol y blynyddoedd cynnar.

Byddwn yn dechrau meithrin y ddealltwriaeth hon o'r adeg y bydd babi neu blentyn bach yn ymuno â ni – boed hynny mewn meithrinfa, grŵp chwarae, gyda gwarchodwr plant neu wrth iddo symud rhwng ystafelloedd neu leoliadau – gan gymryd amser i arsylwi ar y ffordd mae'n ymgysylltu, yn cyfathrebu, yn symud ac yn uniaethu ag eraill. Mae'r ddealltwriaeth gynnar hon yn allweddol er mwyn deall y plentyn cyfan a llywio cymorth ystyrlon.

Y pedwar maes allweddol yw:

- **Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol** – Arsylwi ar sut mae babanod a phlant bach yn meithrin cydberthnasau, yn mynegi emosiynau ac yn datblygu hunanymwybyddiaeth. Mae hyn yn ein helpu i ddeall eu hymdeimlad o berthyn a'u llesiant emosiynol.
- **Datblygiad Corfforol** – Sylwi ar sut mae babanod a phlant bach yn archwilio eu hamgylchedd, yn meithrin sgiliau echddygol bras a manwl a magu hyder yn eu galluoedd corfforol.
- **Datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu** – Deall sut mae babanod a phlant bach yn mynegi eu hunain, o seiniau ac ystumiau cynnar i eiriau a rhyngweithio sy'n dod i'r amlwg.
- **Archwilio a Chwarae** – Gwerthfawrogi eu chwilfrydedd, eu creadigrwydd a'u sgiliau datrys problemau wrth iddynt ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas drwy chwarae ac archwilio.

Nid yw'r meysydd hyn ar wahân – maent yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn dylanwadu ar ei gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn llywio ein harsylwadau parhaus ac yn ein helpu i greu darlun cyflawn i ddatblygiad pob babi a phlentyn bach. Mae'r dull cyfannol ac ymatebol hwn sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn sicrhau ein bod yn cwrdd â phob babi a phlentyn bach ble y mae ac yn cynllunio profiadau ystyrlon sy'n meithrin ei ddysgu, ei dwf a'i ddatblygiad mewn ffordd gefnogol a meddylgar.

## Sut y gallwn gynnwys teuluoedd wrth gefnogi datblygiad a dysgu?

Mae teuluoedd yn rhan hanfodol o ddeall datblygiad a dysgu pob babi a phlentyn bach. Drwy weithio mewn partneriaeth, rydym yn cael dealltwriaeth werthfawr o brofiadau cartref, diwylliant, iaith ac arferion babanod a phlant bach. Mae dulliau cyfathrebu rheolaidd a pharchus â rhieni a gofalwyr yn ein galluogi i adeiladu cymorth ar y cyd sydd wedi'i deilwra, sy'n gynhwysol ac sydd wedi'i wreiddio ym mywyd pob plentyn y tu hwnt i'r lleoliad.

## Sut y gallwn nodi a fydd angen cymorth ychwanegol ar fabi/plentyn bach?

Drwy arsylwi a myfyrio'n ofalus, gallwn nodi pan fyddai cymorth ychwanegol o fudd i fabi/plentyn bach. Mae nodi'n gynnar yn allweddol er mwyn sicrhau y caiff prosesau rhyngweithio wedi'u teilwra eu cyflwyno'n brydlon. Mae'r prosesau rhyngweithio hyn ar eu mwyaf effeithiol pan gânt eu datblygu ar y cyd â theuluoedd a, phan fydd angen, byddant yn cynnwys cyngor gan arbenigwyr neu wasanaethau allanol.

## Beth yw dull cyfannol at ddatblygiad, dysgu cynnar a gofal?

Ystyr dull cyfannol yw bod gwaith arsylwi a myfyrio yn rhan o ymarfer bob dydd – nid ar wahân iddo. Mae'n ein galluogi i feithrin llesiant, dysgu a datblygiad babanod a phlant bach drwy gydberthnasau cynnes, rhyngweithio ystyrlon a phrofiadau wedi'u dylunio'n feddylgar.

Mae canolbwyntio ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol, datblygiad corfforol, dulliau cyfathrebu ac iaith ac archwilio a chwarae yn ein helpu i ddathlu natur unigryw pob babi a phlentyn bach a chefnogi ei lawn botensial.



# Adran 4: Meysydd Asesu

Mae'r trefniadau asesu ar gyfer babanod a phlant bach (0-3 oed) yn canolbwyntio ar bedwar maes asesu allweddol: datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, datblygiad corfforol, cyfathrebu ac iaith ac archwilio a chwarae. Daw'r meysydd asesu hyn o Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygiadol 0 i 3, gan sicrhau dull cyson a chefnogol tuag at ddatblygiad cynnar. Maent hefyd yn creu sail gref ar gyfer cynnydd i'r trefniadau asesu ar gyfer plant 3 a 4 oed.

Dylem ddefnyddio'r trefniadau hyn, ynghyd â'n gwybodaeth a'n profiad, i adlewyrchu anghenion unigol y babanod a'r plant bach yn ein lleoliad ac ymateb iddynt. Mae'n bosibl y bydd rhai babanod a phlant bach yn mynychu mwy nag un lleoliad a dylem geisio gweithio'n agos gyda'r lleoliadau eraill i rannu gwybodaeth berthnasol. Mae trafodaethau proffesiynol yn cyfrannu at ein dealltwriaeth gyffredin o gryfderau, anghenion a diddordebau babanod a phlant bach. Dylai'r rhain ein helpu i wneud penderfyniadau am y ffordd orau o helpu babanod a phlant bach i wneud cynnydd.





## Meysydd asesu: cwestiynau i’w hystyried gennym wrth i ni arsylwi ar fabanod a phlant bach yn ein lleoliad

Cyflwynir y meysydd asesu isod fel cyfres o gwestiynau inni eu hystyried wrth arsylwi ar fabanod a phlant yn ein lleoliad. Ar dudalennau 32 i 70, ategir y cwestiynau hyn ymhellach gan enghreifftiau o’r hyn y gallwn sylwi ac arsylwi arno a’i gofnodi mewn perthynas â datblygiad a chynnydd babanod a phlant bach wrth chwarae, archwilio a dilyn arferion bob dydd.

Nid yw’r disgrifiadau yn hollgynhwysfawr. Dylem eu defnyddio i ategu ein harsylwadau ar y cyd wrth asesu cynnydd babanod a phlant bach. Dylem ddadansoddi’r hyn y byddwn yn sylwi arno er mwyn llywio ein hymateb a’n gwaith cynllunio a fydd yn cefnogi babanod a phlant bach i dyfu, datblygu a ffynnu mewn amgylchedd meithringar.



*Cofiwch fod taith pob babi a phlentyn bach yn unigryw, lle nad yw cynnydd a datblygiad bob amser yn llinellol. Fodd bynnag, mae’n bosibl na fydd cynnydd cyfannol babanod a phlant bach yn cyfateb yn union i ddim ond un ystod ddatblygiadol. Mae hyn yn golygu, fel ymarferwyr, y dylem fod yn ymwybodol o’r hyn sy’n digwydd cyn ac ar ôl cam penodol.*

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol** | Sut mae'r babi/plentyn yn dangos ei fod yn hapus, wedi setlo ac yn fodlon? | Sut mae'r babi/plentyn yn ymateb i gymorth ar y dechrau er mwyn rheoli ei deimladau/emosiynau? | Sut mae babi/plentyn yn ymateb I arferion a chyfnodau pontio? | Sut mae'r babi/plentyn yn meithrin cydberthnasau ag eraill yn y lleoliad? | | |
| **Datblygiad Corfforol** | Sut mae'r babi/plentyn yn cymryd rhan mewn chwarae corfforol ac yn herio ei hun yn gorfforol? | Pa mor hyderus yw'r babi/plentyn gyda'i symudiad corfforol? | Sut mae'r babi/plentyn yn mynegi ei hun drwy symudiad? | Sut mae'r babi/plentyn yn dangos ymwybyddiaeth o'i gorff yn ei symudiadau? | Pa mor dda yw sgiliau echddygol bras a manwl y babi/plentyn? | |
| **Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu** | Sut mae'r babi/plentyn yn rhyngweithio â chi neu eraill? | Sut mae'r babi/plentyn yn sicrhau bod pobl yn ei ddeall? | Sut mae'r babi/plentyn yn dangos ei fod yn sylwi ac yn ymateb? | Sut mae'r babi/plentyn yn dangos ei fod yn deall iaith? | Sut mae'r babi/plentyn yn cymryd rhan mewn straeon, caneuon a rhigymau? | Sut mae'r babi/plentyn yn meithrin ei sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu? |
| **Archwilio a Chwarae** | Sut mae'r babi/plentyn yn dangos chwilfrydedd a diddordeb yn ei amgylchedd? | Sut mae'r babi/plentyn yn archwilio ac yn ymateb i ddeunyddiau, pobl neu amgylcheddau newydd? | Sut mae'r babi/plentyn yn gwneud cysylltiadau drwy chwarae? | Sut mae'r babi/plentyn yn cymryd rhan mewn prosesu datrys problemau ac yn ymateb i newid? | Sut mae'r babi/plentyn yn defnyddio chwarae i fynegi syniadau, teimladau neu ddealltwriaeth o'r byd o'i amgylch? | |

# Dyma fi! (0-12 mis) – Asesu datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol

Mae teimlo'n gysylltiedig ac yn ddiogel yn elfennau allweddol o lesiant cadarnhaol a gallant hybu ymdeimlad cryf o berthyn a llesiant. Cyn gynted ag y cânt eu geni, mae babanod yn chwilio am ymlyniadau. Mae meithrin cydberthnasau cadarn a sicr ag aelodau o'u teulu a'u gweithwyr allweddol yn hanfodol er mwyn i fabanod lunio ymlyniadau cadarnhaol. Gall yr ymlyniadau hyn helpu babanod i wybod gyda phwy a ble y maent yn perthyn, ac i feithrin ymwybyddiaeth o'u hunaniaeth eu hunain o fewn y cydberthnasau hyn. Fel oedolion sy'n galluogi dysgu, mae gennym rôl allweddol i'w chwarae wrth greu amgylcheddau sy'n ddiogel yn emosiynol sy'n helpu babanod i ddangos eu hoffterau mewn perthynas â gorffwys, gofal, cysur a maeth. Gall oedolion neu weithwyr allweddol sy'n cydnabod hynny ac yn ymateb mewn ffyrdd sensitif, meithringar ac amserol, gan barchu cefndiroedd diwylliannol a hil, sicrhau bod babanod yn meithrin ymdeimlad cryf o lesiant. Mae'n hanfodol ein bod yn neilltuo amser i ddod i adnabod y plentyn a deall ei gefndir unigryw, gan gynnwys ei ddiwylliant a'i gefndir ieithyddol, yn ogystal â'i brofiadau blaenorol, er mwyn creu darlun cyfannol o bob plentyn i sicrhau y gallwn ddiwallu ei anghenion cymdeithasol ac emosiynol.

**Sut mae'r babi/plentyn yn dangos ei fod yn hapus, yn fodlon ac wedi setlo?**

- Efallai y byddaf yn dangos fy awydd i archwilio yn gorfforol.
- Efallai y byddaf yn ymateb yn gadarnhaol wrth weld staff.
- Efallai y byddaf yn parablu neu'n gwneud seiniau er mwyn cyfleu llawenydd.
- Efallai y byddaf yn dangos mynegiant corff ac wyneb.

| | |
|---|---|
| Sut mae'r babi/ plentyn yn ymateb i gymorth wrth ddechrau rheoli ei deimladau/ emosiynau? | Efallai y byddaf yn ymateb i gysur.<br>Efallai y byddaf yn ceisio cysur gan oedolyn cyfarwydd.<br>Efallai y byddaf yn ymateb i wrthrychau cysur. |
| Sut mae babi/ plentyn yn ymateb i arferion a chyfnodau pontio? | Efallai y byddaf yn dangos mwynhad mewn arferion cyfarwydd.<br>Efallai y byddaf yn dangos fy mod wedi setlo mewn cyfnodau pontio.<br>Efallai y byddaf yn dangos hoffter at agweddau ar y drefn arferol.<br>Efallai y byddaf yn dangos nad wyf yn hoffi rhywbeth newydd yn y drefn arferol. |

## Sut mae'r babi/plentyn yn meithrin cydberthnasau ag eraill yn y lleoliad?

Efallai y byddaf yn ymateb i ryngweithio cynnes gan oedolyn.

Efallai y byddaf yn ceisio cysylltiadau gan blant eraill.

Efallai y byddaf yn ceisio cysylltiadau gan oedolion.

Efallai y byddaf yn mynegi anfodlonrwydd os bydd oedolyn yn rhoi sylw rywle arall.

# Dyma fi! (0-12 mis) – Asesu Datblygiad Corfforol

Wrth i’w cyrff dyfu, mae babanod yn cryfhau eu cyhyrau yn raddol ac mae eu gallu i reoli eu cyrff yn gwella. Mae sgiliau corfforol babi yn rhan bwysig o’i ddatblygiad cyfannol ac yn effeithio ar bob agwedd ar ei dwf a’i ddatblygiad. Mae datblygiad corfforol o ddiddordeb mawr i fabanod wrth iddynt ymarfer y sgiliau y byddant wedi’u dysgu a cheisio datblygu rhai newydd. Dylem fod yn hyderus o ran ein dealltwriaeth o gynnydd o fewn datblygiad corfforol er mwyn inni allu asesu sgiliau corfforol babanod yn gywir. Mae’n arbennig o bwysig wrth asesu ac arsylwi ar ddatblygiad babi ein bod yn ystyried yr effaith y mae’n ei chael ar ei ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol. Mae angen amser, lle a rhyddid ar fabanod i archwilio a meithrin eu sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau dan do ac yn yr awyr agored. Drwy gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd datblygu corfforol, rydym yn cefnogi babanod i feithrin eu gwydnwch, eu hyder a’u hannibyniaeth a’u hysgogi a’u hannog i feithrin sgiliau echddygol bras a manwl.

**Sut mae’r babi/plentyn yn cymryd rhan mewn chwarae corfforol ac yn herio ei hun yn gorfforol?**

- Efallai y byddaf yn ymgymryd ag amrywiaeth o symudiadau corfforol e.e. troi, taro, chwifio, cicio, gwthio/tynnu ac ati.
- Efallai y byddaf yn dechrau gwneud symudiadau bwriadol.
- Efallai y byddaf yn dangos ymwybyddiaeth o’m gweithredoedd corfforol.
- Efallai y byddaf yn dyfalbarhau a/neu yn dangos rhwystredigaeth yn fy symudiad.
- Efallai y byddaf yn ymgysylltu mewn chwarae corfforol am gyfnodau hwy.

## Pa mor hyderus yw’r babi/plentyn wrth symud yn gorfforol?

Efallai y byddaf yn dangos awydd i symud a bod yn gorfforol.

Efallai y byddaf yn dangos ac yn profi fy ngalluoedd ac yn ceisio cymorth os bydd angen.

Efallai y byddaf yn arsylwi ar blant eraill cyn symud.

Efallai y byddaf yn dangos ymwybyddiaeth o’m galluoedd.

## Sut mae’r babi/plentyn yn mynegi ei hun drwy symudiad?

Efallai y byddaf yn defnyddio fy nghorff a’m symudiadau i ddangos beth rwyf yn ei hoffi a beth nad wyf yn ei hoffi.

Efallai y byddaf yn defnyddio ystum i ddangos diddordeb neu fel dull o gyfathrebu.



## Sut mae'r babi/plentyn yn dangos ymwybyddiaeth gorfforol wrth symud?

Efallai y byddaf yn dangos ymwybyddiaeth gorfforol drwy ailadrodd symudiad.

Efallai y byddaf yn goresgyn rhwystrau drwy newid fy symudiad/ cyfeiriad corfforol.

Efallai y byddaf yn dangos ymwybyddiaeth o faint fy nghorff (meithrin propriodderbyniaeth) e.e. mynd ar fy nghwrcwd drwy dwnnel.

Efallai y byddaf yn ymateb i fewnbwn synhwyraidd drwy ddefnyddio symudiad.

## Sut mae'r babi yn dangos cydsymud mewn sgiliau echddygol bras a manwl?

Efallai y byddaf yn estyn am bethau gan ddefnyddio dwy law, gan gynnwys croesi'r llinell ganolog.

Efallai y byddaf yn cydsymud dwy ochr fy nghorff e.e. cropian, clapio.

Efallai y byddaf yn cydsymud fy mhen, llygaid, dwylo, bysedd i archwilio'n gorfforol.

Efallai y byddaf yn dangos cydbwysedd cynyddol e.e. codi/ dal y pen, eistedd heb gymorth, tynnu fy hun i fyny, sefyll heb gymorth ac ati.

Efallai y byddaf yn rhoi/ceisio rhoi gwrthrychau yn fy ngheg.

# Dyma fi! (0-12 mis) – Asesu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Mae cyfathrebu, yn lleisiol ac yn ddieiriau, yn allweddol i feithrin cydberthnasau. Mae babanod yn mynegi eu hanghenion drwy grio, symudiadau corfforol, cyswllt llygaid, seiniau ac ystumiau. Dylai gwaith asesu effeithiol nodi sgiliau cyfathrebu cynnar, wrth i fabanod ddechrau dynwared seiniau a goslefau. Bydd oedolion cefnogol yn ymateb yn gadarnhaol, gan diwnio i mewn i anghenion unigol, asesu'n gywir a chefnogi cynnydd. Dylem fod yn hyderus yn ein dealltwriaeth o sgiliau cyfathrebu ac iaith cynnar a'r ffactorau risg a all effeithio ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu hirdymor babi. Dylem ystyried safbwynt cyfannol o sgiliau cyfathrebu ac iaith y babi, er mwyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am y camau nesaf ar gyfer pob unigolyn.

**Sut mae'r babi/ plentyn yn rhyngweithio â chi neu ag eraill?**

- Efallai y byddaf yn ymateb i seiniau a lleisiau cyfarwydd.
- Efallai y byddaf yn defnyddio ystumiau llaw ac yn pwyntio.
- Efallai y byddaf yn gwneud seiniau e.e. parablu, gyrglo, cwian.
- Efallai y byddaf yn defnyddio fy nghorff i fynegi teimladau/ emosiynau.

| | |
|---|---|
| Sut mae'r babi/plentyn yn sicrhau bod pobl yn ei ddeall? | Efallai y byddaf yn defnyddio fy nghorff neu wrthrychau i gyfleu beth rwyf ei eisiau/angen.<br><br>Efallai y byddaf yn defnyddio seiniau ac yn dechrau defnyddio geiriau e.e. ba-ba, mama, na ac ati.<br><br>Efallai y byddaf yn symud yn gorfforol er mwyn dangos hoffter.<br><br>Efallai y byddaf yn defnyddio criau gwahanol i gyfathrebu anghenion gwahanol. |
| Sut mae'r babi/plentyn yn dangos ei fod yn sylwi ac yn ymateb? | Efallai y byddaf yn troi fy mhen ac yn edrych ar wrthrychau neu seiniau.<br><br>Efallai y byddaf yn dangos fy mod yn adnabod wynebau a lleisiau cyfarwydd.<br><br>Efallai y byddaf yn ymateb i fynegiant wyneb e.e. copïo rhywun sy'n tynnu tafod neu'n gwenu.<br><br>Efallai y byddaf yn ymateb i gemau achos ac effaith e.e. pi-po. |

| | |
|---|---|
| Sut mae'r babi/plentyn yn dangos ei fod yn deall iaith? | Efallai y byddaf yn ymateb i eiriau cyfarwydd gyda gweithredoedd ategol.<br><br>Efallai y byddaf yn dangos cysylltiad rhwng geiriau a gwrthrychau/pobl e.e. mam, pêl.<br><br>Efallai y byddaf yn defnyddio ystumiau ac yn dangos gwrthrychau.<br><br>Efallai y byddaf yn dangos hoffter wrth ymateb i iaith a ddefnyddir e.e. cyffro i gael byrbryd, siomedig i fynd y tu allan. |
| Sut mae'r babi/plentyn yn ymgysylltu â straeon, caneuon a rhigymau? | Efallai y byddaf yn canfod lleoliad seiniau ac yn ymateb.<br><br>Efallai y byddaf yn ymgysylltu drwy gyswllt llygad a mynegiant wyneb.<br><br>Efallai y byddaf yn lleisio.<br><br>Efallai y byddaf yn dynwared symudiadau wyneb, ystumiau a gweithredoedd.<br><br>Efallai y byddaf yn defnyddio symudiad i fynegi fy nheimladau. |

## Sut mae'r babi/plentyn yn meithrin ei sgiliau cyfathrebu ac iaith?

Efallai y byddaf yn dangos rhagddisgwyliad mewn ymateb i seiniau, ystumiau a gwrthrychau cyfarwydd e.e. cyffro wrth glywed dechrau cân/awgrym o gân.

Efallai y byddaf yn adnabod fy enw.

Efallai y byddaf yn cymryd tro wrth sgwrsio (parablu). E.e. yn ôl ac ymlaen.

Efallai y byddaf yn adnabod fy emosiynau ac emosiynau pobl eraill.

Efallai y byddaf yn dangos bwriad wrth gyfathrebu. E.e. gwneud sŵn a phwyntio at rywbeth yr wyf am ei gael.

# Dyma fi! (0-12 mis) – Asesu Archwilio a Chwarae

Mae babanod yn naturiol chwilfrydig am yr amgylchedd ac yn awyddus i archwilio. Maent yn ymddiddori ynddynt eu hunain, eraill a’r byd o’u cwmpas. Wrth i fabanod archwilio drwy chwarae, maent yn arbrofi â synau, golygfeydd, gwrthrychau a gweithgareddau newydd. Maent yn archwilio pwy ydynt a beth y gallant ei wneud drwy ddefnyddio eu corff. Gallant ganolbwyntio ar bethau sydd wedi tynnu eu sylw am gyfnod byr o amser. Maent yn dechrau ailadrodd symudiadau a’u mireinio wrth iddynt ddatblygu eu hymdrechion i archwilio. Dylem arsylwi ar fabanod wrth iddynt chwarae a rhyngweithio ag adnoddau dilys penagored i’w helpu i ddeall bywyd ac arferion bob dydd. Dylem ddefnyddio ein harsylwadau i lywio cyfleoedd dysgu digymell (dan do ac yn yr awyr agored), a all gynnwys cynnig mwy o gyfleoedd i fabanod archwilio. Dylem gefnogi babanod i weithio drwy’r broses o ddatrys problemau a rhoi amser iddynt arsylwi, archwilio ymchwilio ac arbrofi. Dylid rhoi gwerth ar y broses datrys problemau hon fel nod ynddi hi ei hun, ac efallai na fydd bob amser yn arwain at ganlyniad nac ateb.

**Sut mae’r babi/plentyn yn dangos chwilfrydedd a diddordeb yn ei amgylchedd?**

- Efallai y byddaf yn dechrau symud yn gorfforol i archwilio’r amgylchedd e.e. troi pen, estyn.
- Efallai y byddaf yn dechrau dangos bwriad gyda’m symudiad e.e. troi rhywbeth drosodd.
- Efallai y byddaf yn defnyddio fy synhwyrau, gan gynnwys cegbrofi gwrthrychau.
- Efallai y byddaf yn arsylwi ac yn canolbwyntio ar bethau.

## Sut maent yn archwilio ac yn ymateb i ddeunyddiau, pobl neu amgylcheddau newydd?

Efallai y byddaf yn barod i archwilio gyda fy ngofalwr.

Efallai y byddaf yn cymryd sylw am gyfnod byr, a all dyfu wrth i mi ymgyfarwyddo neu gydag oedran.

Efallai y byddaf yn archwilio gwrthrychau a roddir i mi neu rai y byddaf yn dod ar eu traws yn annibynnol e.e. cydio, symud neu drin.

## Sut mae'r babi/plentyn yn gwneud cysylltiadau drwy chwarae?

Efallai y byddaf yn dangos dealltwriaeth o'r defnydd o wrthrychau a/neu sefydlogrwydd gwrthrych.

Efallai byddaf yn chwilio am wrthrychau ychwanegol i'w cynnwys wrth chwarae. E.e. Pram i ddoli, cwpanau stacio.

Efallai y byddaf yn arbrofi ag achos ac effaith.

Efallai y byddaf yn ailadrodd gweithredoedd wrth chwarae a/neu geisio cyfleoedd i ailymweld.

| | |
|---|---|
| Sut mae'r babi/plentyn yn ymgysylltu mewn prosesau datrys problemau ac yn ymateb i her? | Efallai y byddaf yn dangos hyder wrth ymgysylltu mewn chwarae mentrus.<br>Efallai y byddaf yn defnyddio dulliau profi a methu er mwyn ymchwilio.<br>Efallai y byddaf yn rhoi cynnig ar weithredoedd ar ôl gwylio eraill.<br>Efallai y byddaf yn dangos dyfalbarhad wrth archwilio.<br>Pan fyddaf yn wynebu her, efallai y byddaf yn troi at y gofalwyr i gael cymorth a sicrwydd. |
| Sut mae'r babi/plentyn yn defnyddio chwarae i fynegi syniadau, teimladau neu ddealltwriaeth o'r byd o'u hamgylch? | Efallai y byddaf yn dangos hoffter wrth chwarae, gan gynnwys amgylcheddau chwarae a/neu orffwys.<br>Efallai y byddaf yn dechrau dangos hunanymwybyddiaeth wrth ryngweithio â phethau byw a gwrthrychau.<br>Efallai y byddaf yn dechrau gwneud dewisiadau.<br>Efallai y byddaf yn rhannu llawenydd a brwdfrydedd neu rwystredigaeth wrth chwarae. |

# Rwy'n archwilio! (1-2 oed) – Asesu Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol

Mae teimlo'n gysylltiedig ac yn ddiogel yn elfennau allweddol o lesiant cadarnhaol a gallant hybu ymdeimlad cryf o berthyn a llesiant. Wrth i blant bach ddod yn fwy hunanymwybodol, byddant yn dechrau meithrin ymdeimlad cryfach o bwy ydynt a beth y gallant ei wneud. Pan fydd plant bach yn teimlo'n ddiogel byddant yn mynegi eu teimladau ac yn cael cymorth i gyd-reoleiddio teimladau sydd weithiau o bosibl yn eu llethu. Mae plant bach ag ymlyniadau a chydberthnasau cadarn yn gallu ymlacio ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o lesiant, sy'n eu galluogi i ddangos beth sydd orau ganddynt mewn perthynas â gorffwys, gofal, cysur a maeth. Gyda'n cymorth, gall plant bach ddechrau gwneud eu dewisiadau eu hunain. Pan fyddant yn teimlo eu bod yn cael eu caru, eu meithrin a'u gwerthfawrogi, byddant yn dechrau teimlo'n bwysig yn y gwahanol grwpiau y maent yn perthyn iddynt. Gall plant bach ymateb i arferion a gwrthrychau cyfarwydd o'r cartref, er mwyn eu helpu i deimlo'n ddiogel ac i leddfu'r cyfnod pontio. Mae gan blant bach â lefelau iechyd a llesiant da chwilfrydedd cynhenid. Mae ganddynt awch am fywyd sy'n eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu a datblygu.

**Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn hapus, yn fodlon ac wedi setlo?**

Efallai y byddaf yn ymateb yn gadarnhaol wrth weld staff cyfarwydd ac yn mynd atynt yn annibynnol.

Efallai y byddaf yn chwilio am adnoddau sy'n adlewyrchu fy nheulu, fy niwylliant a'm cymuned ac yn dechrau eu rhannu.

Efallai y byddaf yn ymgysylltu â'm hamgylchedd/profiadau ag annibyniaeth a hyder cynyddol.

Efallai y byddaf yn gallu cyfathrebu'r hyn rwyf yn ei hoffi a'r hyn nad wyf yn ei hoffi.

**Sut mae'r plentyn yn ymateb i gymorth wrth ddechrau rheoli ei deimladau/ emosiynau?**

- Efallai y byddaf yn ceisio cysur gan oedolyn cyfarwydd.
- Efallai y byddaf yn ymateb i wrthrychau a geiriau o gysur.
- Efallai y byddaf yn ymateb i gael fy nghysuro a'm tawelu.
- Efallai y byddaf yn ymateb i gael sicrwydd gan oedolyn.

**Sut mae'r plentyn yn ymateb i arferion a chyfnodau pontio?**

- Efallai y byddaf yn dangos rhagddisgwyliad mewn arferion cyfarwydd e.e. ymateb i wrthrychau cyfeirio, caneuon a/neu weithredoedd.
- Efallai y byddaf yn dangos mwynhad mewn arferion cyfarwydd.
- Efallai y byddaf yn dangos fy mod wedi setlo mewn cyfnodau pontio.
- Efallai y byddaf yn dangos nad wyf yn hoffi rhywbeth newydd yn y drefn arferol.
- Efallai y byddaf yn dangos hoffter at agweddau ar y drefn arferol.

## Sut mae'r plentyn yn meithrin cydberthnasau ag eraill yn y lleoliad?

Efallai y byddaf yn ymateb i ryngweithio cynnes gan oedolyn.

Efallai y byddaf yn chwilio am gysylltiadau gan blant eraill a/neu'n gwrthod cysylltiadau o'r fath.

Efallai y byddaf yn chwilio am gysylltiadau gan oedolion mewn sawl ffordd.

Efallai y byddaf yn dangos anfodlonrwydd os bydd sylw'r oedolyn/cyfoedyn rywle arall.

## Rwy'n archwilio! (1-2 oed) – Asesu Datblygiad Corfforol

Wrth i blant bach dyfu, mae eu penderfyniad i feistroli symudiadau, cydbwysedd a sgiliau echddygol bras a manwl yn datblygu. Mae sgiliau corfforol yn rhan bwysig o ddatblygiad cyfannol plentyn bach. Dylem fod yn hyderus o ran ein dealltwriaeth o gynnydd o fewn datblygiad corfforol er mwyn inni allu asesu sgiliau corfforol plant bach yn gywir. Mae'n arbennig o bwysig wrth asesu ac arsylwi ar ddatblygiad plentyn bach ein bod yn ystyried yr effaith y mae'n ei chael ar ei ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol. Mae angen amser, lle a rhyddid ar blant bach i archwilio a meithrin eu sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau dan do ac yn yr awyr agored. Ar y cam hwn, mae'n bosibl y bydd plant bach yn hoffi symud neu gael eu symud ac y bydd angen iddynt wneud hynny. Mae eu chwilfrydedd naturiol nawr yn ehangu ac maent yn dechrau creu cysylltiadau â'r byd o'u cwmpas. Drwy gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd datblygu corfforol, rydym yn cefnogi plant bach i feithrin eu gwydnwch, eu hyder a'u hannibyniaeth ac yn eu hysgogi a'u hannog i feithrin sgiliau echddygol bras a manwl.

**Sut mae'r plentyn yn cymryd rhan mewn chwarae corfforol ac yn herio ei hun yn gorfforol?**

- Efallai y byddaf yn ymgymryd ag amrywiaeth o symudiadau corfforol e.e. troi, taro, chwifio, cicio, gwthio/tynnu ac ati.
- Efallai y byddaf yn gwneud symudiadau bwriadol ac yn cydsymud.
- Efallai y byddaf yn dangos ymwybyddiaeth a rheolaeth o'm gweithredoedd corfforol.
- Efallai y byddaf yn cadw a/neu yn dangos rhwystredigaeth yn fy symudiad.
- Efallai y byddaf yn cymryd rhan mewn chwarae corfforol am gyfnodau hwy a/neu yn ailadrodd pethau.
- Efallai y byddaf yn chwilio am amrywiaeth o symudiadau corfforol â gwrthrychau a/neu'r amgylchedd ac yn ymgysylltu â nhw.

Pa mor hyderus yw'r plentyn wrth symud yn gorfforol?

Efallai y byddaf yn awyddus i archwilio'r hyn y gallaf ei wneud gyda fy nghorff.

Efallai y byddaf yn arsylwi ar blant eraill cyn symud.

Efallai y byddaf yn dangos ymwybyddiaeth o'm galluoedd.

Efallai y byddaf yn profi fy ngalluoedd, yn ymateb i anogaeth ac yn chwilio am gymorth os bydd angen.

Sut mae'r plentyn yn mynegi ei hun drwy symud?

Efallai y byddaf yn defnyddio fy nghorff a'm symudiadau i ddangos beth rwy'n ei hoffi a beth nad wyf yn ei hoffi.

Efallai y byddaf yn ystumio a/neu'n symud i ddangos diddordeb neu ddull cyfathrebu.

Efallai y byddaf yn ymateb i ysgogiad drwy symud. E.e. gemau, caneuon neu rigymau.

Efallai y byddaf yn defnyddio symudiad i gefnogi fy emosiynau E.e. dod o hyd i lawenydd mewn caneuon â gweithredoedd mawr.

## Sut mae'r plentyn yn dangos ymwybyddiaeth gorfforol wrth symud?

- Efallai y byddaf yn symud fy hun mewn perthynas â'm gallu corfforol a'r lle a'r adnoddau sydd ar gael yn yr amgylchedd e.e. arwynebau gwahanol, defnyddio stepiau, datblygu propriodderbyniaeth.
- Efallai y byddaf yn arsylwi ar symudiadau mewn eraill ac yn ceisio eu dynwared.
- Efallai y byddaf symud fy nghorff o fewn ac o amgylch amgylcheddau gan gydsymud yn gynyddol.
- Efallai y byddaf yn dangos ymwybyddiaeth a gofal wrth symud.
- Efallai y byddaf yn goresgyn rhwystrau drwy newid fy symudiad/cyfeiriad corfforol.
- Efallai y byddaf yn edrych ar fy adlewyrchiad, yn archwilio fy nghorff ac yn arbrofi â symudiad.

## Sut mae'r plentyn yn dangos sgiliau cydsymud gyda'i sgiliau echddygol bras a manwl?

- Efallai y byddaf yn defnyddio fy nwy law/troed, gan gynnwys croesi'r llinell ganolog i archwilio'n gorfforol.
- Efallai y byddaf yn cydsymud dwy ochr fy nghorff e.e. cerdded, dringo, defnyddio cerbydau.
- Efallai y byddaf yn cydsymud fy nghorff ac yn dilyniannu symudiadau i archwilio'n gorfforol.
- Efallai y byddaf yn dangos bwriad wrth roi gwrthrychau yn fy ngheg e.e. bwydo neu yfed.
- Efallai y byddaf yn dangos cydbwysedd cynyddol e.e. neidio, cicio/taflu pêl.

# Rwy'n archwilio! (1-2 oed) – Asesu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Mae cyfathrebu, yn lleisiol ac yn ddieiriau, yn allweddol i feithrin cydberthnasau. Wrth i gyfathrebu'r plant bach ddatblygu, dylai oedolion gydnabod y bydd plant bach o bosibl yn deall mwy nag y gallant ei gyfathrebu. Dylai plant bach deimlo y caiff eu hymdrechion cyfathrebu llafar a dieiriau eu gwerthfawrogi ac yr ymatebir iddynt. Dylai plant bach gael cyfleoedd i sylwi ar bethau a defnyddio geiriau, ystumiau neu arwyddion syml a rhai ymadroddion byr. Dylem ddarparu gwrthrychau cyfarwydd ac ychwanegu gair pan fydd plant bach yn adnabod y gwrthrych. Dylem gyflwyno amrywiaeth o wahanol eiriau, arwyddion neu ystumiau er mwyn gwella dealltwriaeth plant bach o gyfathrebu. Mae arferion bob dydd, fel bwyta gyda'i gilydd a newid cewynnau, yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i sgwrsio. Mae'n bwysig bod plant bach yn profi amrywiaeth o ganeuon a rhigymau drwy gydol y dydd ac yn cael cyfle i ymuno yn y caneuon a'r rhigymau hynny. Dylem feithrin cariad at ddarllen drwy rannu llyfrau ac adrodd straeon. Mae gallu arbrofi wrth wneud marciau yn rhan hanfodol o'r daith tuag at gyfathrebu ysgrifenedig a dylid ei gwerthfawrogi. Wrth iddynt ddysgu sgiliau cyfathrebu newydd, dylid cynnig cyfleoedd i blant bach eu defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau gyda'i gilydd, neu gydag oedolion.

**Sut mae'r plentyn yn rhyngweithio â chi neu ag eraill?**

Efallai y byddaf yn deall ac yn ymateb i eiriau ac ymadroddion cyfarwydd.

Efallai y byddaf yn gwylio eraill yn ofalus ac yn dechrau chwarae gyda nhw.

Efallai y byddaf yn defnyddio fy nghorff a symudiadau corfforol i gael eich sylw e.e. gwneud cyswllt llygad, cyffwrdd eich braich.

Efallai y byddaf yn cyfarch oedolion/cyfoedion cyfarwydd ac yn dechrau defnyddio enwau wrth ryngweithio.

## Sut mae'r plentyn yn sicrhau bod pobl yn ei ddeall?

Efallai y byddaf yn defnyddio geiriau cyfarwydd yn y cyd-destun cywir.

Efallai y byddaf yn dechrau defnyddio seiniau, lleisio a rhai geiriau i ddangos mwynhad a chwilfrydedd.

Efallai y byddaf yn defnyddio dulliau cyfathrebu dieiriau i fynegi'r hyn rwyf ei eisiau/angen a'r hyn rwyf yn ei hoff/ddim yn ei hoffi.

Efallai y byddaf yn dechrau defnyddio seiniau, lleisio a rhai geiriau i gyfathrebu.

## Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn sylwi ac yn ymateb?

Efallai y byddaf yn canolbwyntio ar bethau sydd o ddiddordeb i mi.

Efallai y byddaf yn chwilfrydig neu'n sylwi ar seiniau, arwyddion a gwrthrychau anghyfarwydd yn fy amgylchedd.

Efallai y byddaf yn cymryd tro mewn gemau, straeon a rhigymau syml.

Efallai y byddaf yn ymateb i seiniau/gwrthrychau cyfarwydd er mwyn newid fy sylw.

Efallai y byddaf yn ailadrodd rhyngweithiadau.

| | |
|---|---|
| Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn deall iaith? | Efallai y byddaf yn ymateb i eiriau ac ymadroddion cyfarwydd â gweithredoedd ategol.<br><br>Efallai y byddaf yn gwneud dewisiadau mewn ymateb i iaith a ddefnyddir a/neu wrthrychau a ddangosir e.e. opsiynau a gynigir ar adeg byrbryd.<br><br>Efallai y byddaf yn dilyn arferion syml ac y bydd gen i ragddisgwyliad ohonynt.<br><br>Efallai y byddaf yn ymateb i gwestiynau a chyfarwyddiadau syml. |
| Sut mae'r plentyn yn cymryd rhan mewn straeon, caneuon a rhigymau? | Efallai y byddaf yn dangos mwynhad a hoffter e.e. hoff stori.<br><br>Efallai y byddaf yn ymuno ac yn dynwared symudiadau wyneb, ystumiau a gweithredoedd.<br><br>Efallai y byddaf yn adnabod ciwiau gweledol a sain ac yn ymateb iddynt e.e. cloriau llyfrau, gwrthrychau.<br><br>Efallai y byddaf yn cymryd rhan mewn straeon a chaneuon er mwyn ymlacio a setlo. |

## Sut mae'r plentyn yn meithrin ei sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu?

Efallai y byddaf yn deall mwy o eiriau na'r hyn y byddaf yn eu defnyddio.

Efallai y byddaf yn adnabod fy emosiynau i ac eraill.

Efallai y byddaf yn ceisio defnyddio seiniau/ geiriau cyfarwydd mewn cyd-destunau gwahanol.

Efallai y byddaf yn arbrofi wrth wneud marciau, defnyddio offer neu fy nghorff e.e. olion traed, paentio.

Efallai y byddaf yn cymryd tro mewn sgwrs pan gaf ddigon o amser i ymateb.

Efallai y byddaf yn dangos bwriad wrth gyfathrebu.

# Rwy'n archwilio! (1-2 oed) – Asesu Archwilio a Chwarae

Mae plant bach yn ddatryswyr problemau naturiol, yn profi ffiniau ac yn barod i fentro. Ar y cam hwn, mae plant bach yn ceisio archwilio yn ehangach wrth iddynt ddatblygu. Dylem fod yn bartneriaid yn chwarae'r plant bach, gan ymhyfrydu yn chwilfrydedd y plant bach a'u hymdrechion i archwilio a'u dathlu. Wrth i blant bach gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae ailadroddus (sgema), dylem gynnig cyfleoedd iddynt brofi, darganfod a chreu. Dylem wybod pryd i ymyrryd yn eu chwarae a phryd i'w hannog i archwilio'n annibynnol. Dylem arsylwi ar blant bach wrth iddynt chwarae a rhyngweithio ag adnoddau dilys penagored a defnyddio ein harsylwadau i lywio cyfleoedd dysgu digymell (dan do ac yn yr awyr agored). Dylem gefnogi plant i weithio drwy'r broses o ddatrys problemau a rhoi amser iddynt arsylwi, archwilio ac ymchwilio. Dylid rhoi gwerth ar y broses datrys problemau hon fel nod ynddi hi ei hun, ac efallai na fydd bob amser yn arwain at ganlyniad nac ateb.

**Sut mae'r plentyn yn dangos chwilfrydedd a diddordeb yn ei amgylchedd yn gorfforol?**

- Efallai y byddaf yn canolbwyntio ar rywbeth sydd o ddiddordeb ac yn gallu symud fy sylw gyda chymorth.
- Efallai y byddaf yn treulio cyfnodau estynedig yn canolbwyntio ar ymchwilio'r amgylchedd a'r adnoddau.
- Efallai y byddaf yn dangos diddordeb ac yn symud yn gorfforol i archwilio'r amgylchedd a'r adnoddau.
- Efallai y byddaf yn dangos bwriad gyda'm symudiadau ac yn cyflwyno gwrthrychau o ddiddordeb. E.e. pasio llyfr i oedolyn.
- Efallai y byddaf yn defnyddio fy synhwyrau, gan gynnwys cegbrofi gwrthrychu i archwilio fy amgylchedd.

## Sut mae'r plentyn yn archwilio ac yn ymateb i ddeunyddiau, pobl neu amgylcheddau?

Pan gyflwynir rhywbeth newydd i mi, efallai y byddaf yn cymryd sylw, a all dyfu â hyder, diddordeb neu oedran.

Efallai y byddaf yn barod i archwilio'n annibynnol gydag oedolyn wrth law.

Efallai y byddaf yn ymateb i bobl pan fydd yn addas i'm chwarae.

Efallai y byddaf yn archwilio mwy o wrthrychau a roddir i mi neu y byddaf yn dod ar eu traws yn annibynnol, gan gydsymud llygaid, dwylo a bysedd i'w trin ac i arbrofi.

Efallai y byddaf yn dangos hyder cynyddol i ddefnyddio fy nghorff a/neu fy adnoddau yn greadigol e.e. offerynnau cerddorol.

## Sut mae'r plentyn yn gwneud cysylltiadau drwy chwarae?

Efallai y byddaf yn arddangos dull chwarae sy'n ymddangos yn ddisynnwyr e.e. cuddio a dod o hyd i bethau drosodd a throsodd, arllwys pethau allan, taro pethau drosodd.

Efallai y byddaf yn gallu diffinio gwrthrychau bob dydd o'u defnydd e.e. Ar gyfer yfed ohonynt y mae cwpanau.

Efallai y byddaf yn arbrofi ag achos ac effaith, gan ddefnyddio fy mhrofiadau blaenorol.

Efallai y byddaf yn ailadrodd gweithredoedd wrth chwarae a/neu yn chwilio am gyfleoedd i ailymweld, weithiau mewn cyd-destun newydd.

Efallai y byddaf yn dilyn patrwm/neu yn adnabod symbolau wrth chwarae e.e. cyfateb a didoli gwrthrychau.

| | |
|---|---|
| Sut mae'r plentyn yn cymryd rhan mewn prosesau datrys problemau ac yn ymateb i her? | Efallai y byddaf yn dangos hyder cynyddol wrth ymgysylltu â chwarae mentrus.<br><br>Efallai y byddaf yn rhoi cynnig ar weithredoedd ar ôl gwylio eraill.<br><br>Pan fyddaf yn wynebu her, efallai y byddaf yn chwilio am oedolyn i gael cysur a sicrwydd.<br><br>Efallai y byddaf yn defnyddio dulliau profi a methu er mwyn dysgu sut mae pethau'n gweithio ac efallai y byddaf yn ailymweld.<br><br>Efallai y byddaf yn dangos dyfalbarhad wrth archwilio ac efallai y byddaf am wneud pethau drosof fy hun. |
| Sut mae'r plentyn yn defnyddio chwarae i fynegi syniadau, teimladau neu ymwybyddiaeth o'r byd o'i gwmpas? | Efallai y byddaf yn dangos hoffter wrth chwarae e.e. amgylcheddau i archwilio a/neu orffwys.<br><br>Efallai y byddaf yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o emosiynau eraill (gan gynnwys anifeiliaid) ac yn dynwared gweithredoedd drwy chwarae.<br><br>Efallai y byddaf yn dychwelyd at lefydd, pobl a gwrthrychau cyfarwydd wrth chwarae.<br><br>Efallai y byddaf yn mynegi fy meddyliau a'm syniadau drwy fy ngweithredoedd ac yn gwneud dewisiadau.<br><br>Efallai y byddaf yn dechrau sylwi ar yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhyngof fi ac eraill.<br><br>Efallai y byddaf yn mynegi fy meddyliau a'm syniadau drwy fy ngweithredoedd ac yn gwneud dewisiadau. |

# Edrycha arna' i nawr! (2-3 oed) – Asesu Datblygiad Cymdeithasol ac Emosiynol

Mae teimlo'n gysylltiedig ac yn ddiogel yn elfennau allweddol o ddatblygu ymdeimlad cryf o berthyn a llesiant. Pan fyddant yn ifanc, mae plant bach yn dechrau dod i ddeall eu lle yn y grwpiau niferus y maent yn perthyn iddynt, a'u pwysigrwydd yn y grwpiau hynny. Gall ymdeimlad o gynefin arwain at deimladau cadarnhaol o gyswllt â'r cartref a'r lleoliad a gall ehangu i'r gymuned, Cymru a'r byd ehangach. Bydd plant bach yn dechrau adnabod a rheoli eu teimladau a'u hymddygiad mewn ffyrdd cadarnhaol. Byddant hefyd yn dechrau deall bod gweithredoedd yn arwain at ganlyniadau. Gall plant bach sydd ag ymlyniadau a chydberthnasau cadarn feddu ar hunanhyder ac, felly, gallant wneud dewisiadau'n well, bod yn fwy gwydn ac annibynnol, a chymryd rhan mewn profiadau bob dydd mewn ffordd gadarnhaol. Bydd gan blant bach sy'n ymwneud ac yn ymgolli'n gorfforol, yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn wybyddol yn eu chwarae lefelau uwch o lesiant a byddant yn datblygu eu teimladau o hunanwerth a hyder. Mae gan blant bach â lefelau iechyd a llesiant da chwilfrydedd cynhenid. Mae ganddynt awch am fywyd sy'n eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd i dyfu a datblygu.

**Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn hapus, yn fodlon ac wedi setlo?**

Efallai y byddaf yn ymateb yn gadarnhaol wrth weld oedolion cyfarwydd ac yn mynd atynt yn annibynnol.

Efallai y byddaf yn ymgysylltu â'm hamgylchedd ag annibyniaeth gynyddol a rhai profiadau â chwilfrydedd.

Efallai y byddaf yn dangos hyder cynyddol wrth gyfathrebu fy hoffterau, y pethau rwy'n eu hoffi/nad wyf yn eu hoffi a dewisiadau.

Efallai y byddaf yn chwilio am adnoddau a straeon cyfarwydd sy'n adlewyrchu fy nheulu, fy niwylliant a'm cymuned ac yn dechrau eu rhannu.

| | |
|---|---|
| Sut mae'r plentyn yn ymateb i gymorth wrth ddechrau rheoli ei deimladau/ emosiynau? | Efallai y byddaf yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'm hemosiynau i ac eraill.<br><br>Efallai y byddaf yn ymateb i hunanreoleiddio a dulliau llonyddu ac yn dangos hoffter.<br><br>Efallai y byddaf yn dechrau adnabod pryd i chwilio am gysur a chymorth gan oedolyn cyfarwydd.<br><br>Efallai y byddaf yn dilyn rhai rheolau neu'n herio ffiniau â chymorth. |
| Sut mae'r plentyn yn ymateb i arferion a chyfnodau pontio? | Efallai y byddaf yn dangos hyder, mwynhad a/neu berchenogaeth mewn arferion bob dydd.<br><br>Efallai y byddaf yn cyfathrebu fy mod yn hoffi neu nad wyf yn hoffi rhywbeth newydd yn y drefn arferol.<br><br>Efallai y byddaf yn gwahanu oddi wrth fy rhiant/gofalwr ag anogaeth gan oedolyn, plentyn neu wrthych pontio cyfarwydd.<br><br>Efallai y byddaf yn dangos rhagddisgwyliad a hoffter o ran agweddau ar fy nhrefn arferol o ddydd i ddydd. |

## Sut mae’r plentyn yn meithrin cydberthnasau ag eraill yn y lleoliad?

Efallai
y byddaf yn meithrin cydberthnasau agos ac yn ceisio rhyngweithio cynnes ag oedolion.

Efallai
y byddaf yn meithrin cysylltiadau â phlant sy’n mwynhau’r un diddordebau a/neu brofiadau.

Efallai
y byddaf yn ceisio/a neu’n gwrthod cysylltiadau gan blant ac oedolion mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Efallai
y byddaf yn chwilio am adnoddau cyfarwydd sy’n adlewyrchu fy nheulu, fy niwylliant a’m cymuned ac yn dechrau eu rhannu ag eraill.

# Edrycha arna' i nawr! (2-3 oed) – Asesu Datblygiad Corfforol

Mae gan blant bach angen naturiol i symud, neu gael eu symud, ac i symud neu ddefnyddio gwrthrychau, yn aml dro ar ôl tro, fel rhan o'u datblygiad. Wrth i blant bach dyfu, mae eu penderfyniad i feistroli symudiadau, cydbwysedd a sgiliau echddygol bras a manwl yn datblygu. Gall y symudiadau echddygol hyn gael eu mireinio a dod yn llyfnach o gael amser a chyfleoedd. Mae sgiliau corfforol yn rhan bwysig o ddatblygiad cyfannol plentyn bach. Dylem fod yn hyderus o ran ein dealltwriaeth o gynnydd o fewn datblygiad corfforol er mwyn inni allu asesu sgiliau corfforol plant bach yn gywir. Mae'n arbennig o bwysig wrth asesu ac arsylwi ar ddatblygiad plentyn bach ein bod yn ystyried yr effaith y mae'n ei chael ar ei ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol. Mae angen amser, lle a rhyddid ar blant bach i archwilio a meithrin eu sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau dan do ac yn yr awyr agored. Mae gweithgarwch corfforol yn cynnig llawer o fanteision i'r plentyn bach sy'n datblygu. Mae symud yn gysylltiedig â gwybyddiaeth a dysgu, a gall cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol wella lefelau canolbwyntio, cymhelliant a chof plant bach, yn ogystal â chefnogi datblygiad esgyrn a chyhyrau iach.

**Sut mae'r plentyn yn cymryd rhan mewn chwarae corfforol ac yn herio ei hun yn gorfforol?**

Efallai y byddaf yn chwilio am amrywiaeth o symudiadau corfforol gyda gwrthrychau a/neu'r amgylchedd ac yn ymgysylltu â nhw e.e. troi, taro/chwifio, cicio, gwthio/tynnu ac ati.

Efallai y byddaf yn gwneud symudiadau bwriadol wedi'u rheoli.

Efallai y byddaf yn dangos diddordeb mewn agweddau penodol o chwarae corfforol, er enghraifft mynd ar gefn beic, cloddio, neu gicio pêl.

Efallai y byddaf yn dangos dyfalbarhad wrth chwarae'n gorfforol.

Efallai y byddaf yn defnyddio dull chwarae corfforol i brofi fy hun a chymryd risgiau.

Efallai y byddaf yn cymryd rhan mewn chwarae corfforol am gyfnodau hwy a/neu yn ailadrodd pethau.

## Pa mor hyderus yw'r plentyn wrth symud yn gorfforol?

Efallai y byddaf yn awyddus i archwilio'n annibynnol wrth chwarae'n gorfforol.

Efallai y byddaf yn arbrofi a/neu yn arsylwi ar blant eraill cyn i mi gymryd rhan mewn chwarae corfforol.

Efallai y byddaf yn profi fy ngalluoedd, yn ymateb i anogaeth ac yn chwilio am gymorth os bydd angen.

Efallai y byddaf yn dangos ymwybyddiaeth o'm galluoedd ac yn dathlu fy nghyflawniadau.

## Sut mae'r plentyn yn mynegi ei hun drwy symud?

Efallai y byddaf yn defnyddio fy nghorff a'm symudiadau i fynegi amrywiaeth o feddyliau, teimladau ac emosiynau.

Efallai y byddaf yn ymateb i ysgogiad drwy symud e.e. gemau, caneuon neu rigymau.

Efallai y byddaf yn chwilio am symudiad corfforol sy'n dod â llawenydd i mi e.e. troi o amgylch, hongian ben i waered, neidio oddi ar bethau.

| | |
|---|---|
| Sut mae'r plentyn yn dangos ymwybyddiaeth gorfforol wrth symud? | Efallai y byddaf yn symud fy nghorff o fewn ac o amgylch amgylcheddau gan ddefnyddio sgiliau cydsymud a phwrpas cynyddol.<br><br>Efallai y byddaf yn edrych ar fy adlewyrchiad, yn archwilio fy nghorff ac yn arbrofi â symudiad.<br><br>Efallai y byddaf yn symud fy hun mewn perthynas â'm gallu corfforol i ac eraill a'r lle a'r adnoddau sydd ar gael yn yr amgylchedd.<br><br>Efallai y byddaf yn arsylwi ar symudiadau eraill ac yn ceisio eu dynwared gyda rheolaeth gynyddol. |
| Sut mae'r plentyn yn dangos sgiliau cydsymud gyda'i sgiliau echddygol bras a manwl? | Efallai y byddaf yn defnyddio fy nwy law/troed, gan gynnwys croesi'r llinell ganolog i archwilio'n gorfforol.<br><br>Efallai y byddaf yn cydsymud dwy ochr fy nghorff e.e. cerdded, dringo, defnyddio cerbydau.<br><br>Efallai y byddaf yn cydsymud fy nghorff ac yn dilyniannu symudiadau.<br><br>Efallai y byddaf yn dangos cydbwysedd cynyddol e.e. neidio, taflu, dal, cicio, cerdded ar arwyneb cul.<br><br>Efallai y byddaf yn dangos fy sgiliau cydsymud drwy weithredoedd bob dydd e.e. helpu i baratoi byrbryd, tywallt diod i mi fy hun, gwisgo fy hun. |

# Edrycha arna' i nawr! (2-3 oed) – Asesu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Mae cyfathrebu, llafar a dieiriau, yn hanfodol er mwyn i blant ddatblygu. Mae'n hanfodol i sylfeini cydberthnasau ac yn allweddol er mwyn dysgu, chwarae a rhyngweithio'n gymdeithasol. Wrth i blant dyfu, maent yn datblygu eu gallu i ddeall ac i gael eu deall, sy'n eu helpu i ddysgu'n fwy effeithiol. Mae cyfathrebu yn cynnwys datblygu sgiliau gwrando, canolbwyntio a deall ochr yn ochr â datblygu iaith fynegiannol, ar lafar ac yn ddieiriau. Gall faint o gyfathrebu a'r math o gyfathrebu y mae plant yn ei brofi gael effaith amlwg ar ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu. Dylai amgylchedd sy'n llawn cyfathrebu gynnig cyfleoedd i blant fynegi a chyfleu eu hanghenion, eu meddyliau a'u teimladau ar lafar ac yn ddieiriau. Wrth iddynt ddysgu sgiliau newydd, dylid cynnig cyfleoedd i blant eu defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau gyda'i gilydd, gydag oedolion, mewn grwpiau bach iawn neu ar sail un i un. Mae cyfleoedd rheolaidd a chyson i gymryd rhan mewn straeon, caneuon a rhigymau yn helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu. Mae datblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol yn bwysig o ran hunanfynegiant, o ran meithrin cydberthnasau cymdeithasol cryf ac o ran dysgu plentyn yn fwy cyffredinol.

**Sut mae'r plentyn yn rhyngweithio â chi neu ag eraill?**

Efallai y byddaf yn gwylio eraill yn agos, yn dangos diddordeb yn eu chwarae ac yn dechrau ymuno.

Efallai y byddaf yn siarad ag oedolion/cyfoedion cyfarwydd, yn siarad am bethau sydd o ddiddordeb i mi ac yn dechrau gofyn cwestiynau.

Efallai y byddaf yn ymateb yn eiriol neu'n ddieiriau i sylwadau gan oedolion sy'n dangos diddordeb yn fy chwarae.

Efallai y byddaf yn defnyddio fy nghorff a symudiadau corfforol i gael eich sylw e.e. tynnu fy hun tuag at rywbeth.

| | |
|---|---|
| Sut mae'r plentyn yn sicrhau bod pobl yn ei ddeall? | Efallai y byddaf yn defnyddio cyfathrebu geiriol a dieiriau i fynegi'r hyn rwyf ei eisiau/ei angen a'r hyn rwyf yn ei hoffi/nad wyf yn ei hoffi.<br><br>Efallai y byddaf yn defnyddio seiniau, rhai geiriau ac ymadroddion byr i ddangos mwynhad a chwilfrydedd.<br><br>Efallai y byddaf yn defnyddio geiriau cyfarwydd yn y cyd-destun cywir, gan gynnwys amrywiaeth o fathau e.e. enwau, berfau.<br><br>Efallai y byddaf yn ceisio dod o hyd i ffyrdd newydd o sicrhau y bydd pobl yn fy neall e.e. ystumiau, gwrthrychau neu leisio. |
| Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn sylwi ac yn ymateb? | Efallai y byddaf yn edrych tuag atoch pan fyddwch yn galw fy enw neu'n dangos rhywbeth i mi.<br><br>Efallai y byddaf yn cymryd tro mewn gemau, straeon a rhigymau syml.<br><br>Efallai y byddaf yn chwilfrydig ac yn gofyn/ymateb i gwestiynau 'pwy', 'beth' a 'ble'.<br><br>Efallai y byddaf yn cymryd sylw o bethau sydd o ddiddordeb i mi am gyfnodau hirach.<br><br>Efallai y byddaf yn dangos diddordeb mewn plant eraill ac yn ymuno â'u chwarae. |

Sut mae'r plentyn yn dangos ei fod yn deall iaith?

Efallai y byddaf yn ymateb i eiriau ac ymadroddion bob dydd â gweithredoedd ategol.

Efallai y byddaf yn dilyn cyfarwyddiadau syml e.e. Mynd i nôl fy nghôt neu fy esgidiau.

Efallai y byddaf yn dangos dealltwriaeth o frawddegau a chysyniadau syml e.e. babi yn y pram.

Efallai y byddaf yn gwneud dewisiadau mewn ymateb i gwestiynau syml e.e. opsiynau a roddir amser stori.

Sut mae'r plentyn yn cymryd rhan mewn straeon, caneuon a rhigymau?

Efallai y byddaf yn cofio ac yn rhannu straeon a rhigymau â chi, gyda chymorth lluniau.

Efallai y byddaf yn gofyn i chi ddarllen fy hoff straeon neu ganu fy hoff ganeuon.

Efallai y byddaf yn dynwared mynegiant wyneb, ystumiau a gweithredoedd.

Efallai y byddaf yn adnabod pan fydd straeon, caneuon a rhigymau yn fy nghynrychioli i ac yn cefnogi fy llesiant.

Efallai y byddaf yn dangos mwynhad gan ddefnyddio symudiadau'r corff, gweithredoedd neu seiniau.

## Sut mae'r plentyn yn datblygu ei eirfa, ei iaith a'i sgiliau cyfathrebu?

Efallai y byddaf yn dechrau defnyddio geiriau syml i ddisgrifio fy emosiynau i ac eraill.

Efallai y byddaf yn defnyddio brawddegau neu seiniau syml mewn cyd-destunau gwahanol.

Efallai y byddaf yn defnyddio geiriau disgrifio syml wrth chwarae.

Efallai y byddaf yn ymuno mewn sgyrsiau ac yn cymryd tro, gan neidio o un pwnc i'r llall.

Efallai y byddaf yn ymgymryd â chyfleoedd i wneud marciau ac yn ymateb iddynt, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau.

# Edrycha arna' i nawr! (2-3 oed) – Asesu Archwilio a Chwarae

Mae plant bach yn ddatryswyr problemau naturiol, yn profi ffiniau ac yn barod i fentro. Ar y cam hwn, mae plant bach yn dechrau cyfathrebu ac ymgysylltu ag eraill wrth archwilio. Wrth i blant bach ddatblygu ac wrth i'w sgiliau gynyddu, mae eu cyfleoedd i archwilio ac ymchwilio mewn modd pwrpasol yn ehangu. Gall plant bach ymgolli yn eu harchwilio wrth i'w sgiliau dyfalbarhad a gwydnwch ddatblygu. Daw eu chwarae yn fwy cymhleth ac ystyrlon. Daw'r cyfleoedd i ailadrodd, dychwelyd ac ailystyried yn gynyddol bwysig i'r plentyn bach. Wrth i hyder plentyn bach gynyddu, gall arwain y chwarae a dylai oedolion hwyluso hyn a rhannu ym mhleser a chyffro'r plant bach. Dylem wybod pryd i ymyrryd yn eu chwarae a phryd i'w hannog i archwilio'n annibynnol. Dylem arsylwi ar blant bach wrth iddynt chwarae a rhyngweithio ag adnoddau dilys penagored a defnyddio ein harsylwadau i lywio cyfleoedd dysgu digymell (dan do ac yn yr awyr agored). Dylem gefnogi plant bach i weithio drwy'r broses o ddatrys problemau a rhoi amser iddynt arsylwi, archwilio ac ymchwilio. Dylid rhoi gwerth ar y broses datrys problemau hon fel nod ynddi hi ei hun, ac efallai na fydd bob amser yn arwain at ganlyniad nac ateb.

Sut mae'r plentyn yn dangos chwilfrydedd a diddordeb yn ei amgylchedd yn gorfforol?

Efallai y byddaf yn defnyddio fy synhwyrau ac yn symud yn gorfforol er mwyn archwilio amgylcheddau ac adnoddau ag annibyniaeth gynyddol.

Efallai y byddaf yn symud ac yn defnyddio gwrthrychau mewn ffyrdd creadigol.

Efallai y byddaf yn treulio mwy o amser mewn amgylcheddau sydd o ddiddordeb i mi ac efallai y bydd angen rhagor o gymorth arnaf i archwilio rhai eraill.

## Sut mae'r plentyn yn archwilio ac yn ymateb i ddeunyddiau, pobl neu amgylcheddau?

Efallai y byddaf yn archwilio ac yn arbrofi ag adnoddau ac amgylcheddau er mwyn deall sut mae pethau'n gweithio.

Efallai y byddaf am rannu fy narganfyddiadau ag eraill.

Efallai y byddaf yn ymateb i bobl a/neu yn gwahodd eraill i chwarae pan fyddaf yn dymuno.

Efallai y byddaf yn canfod ffyrdd newydd o archwilio wrth chwarae, gan gynnwys profi ffiniau a chymryd risgiau.

## Sut mae'r plentyn yn gwneud cysylltiadau drwy chwarae?

Efallai y byddaf yn adeiladu ar ddysgu blaenorol i ddatblygu fy chwarae, gan ei wneud yn fwy cymhleth ac ystyrlon.

Efallai y byddaf yn adnabod achos ac effaith, gan ddefnyddio fy mhrofiadau blaenorol.

Efallai y byddaf yn dangos cysylltiadau â'm cartref a'm cymuned pan fyddaf yn chwarae.

Efallai y byddaf yn adnabod symbolau a phatrymau sy'n gyfarwydd i mi.

Efallai y byddaf yn chwilio am gyfleoedd i ailymweld neu'n ailadrodd gweithredoedd er mwyn meithrin dealltwriaeth o gysyniadau syml.

Sut mae'r plentyn yn cymryd rhan mewn prosesau datrys problemau ac yn ymateb i her?

Efallai y byddaf yn cymryd rhan mewn dulliau profi a methu er mwyn dod i ddeall beth sy'n gweithio.

Efallai y byddaf yn gwylio ac yn copïo eraill er mwyn datrys problemau.

Pan fyddaf yn wynebu her, efallai y byddaf yn gofyn am help a sicrwydd.

Efallai y byddaf yn dangos dyfalbarhad wrth archwilio am gyfnodau estynedig.

Sut mae'r plentyn yn defnyddio chwarae i fynegi syniadau, teimladau neu ymwybyddiaeth o'r byd o'i gwmpas?

Efallai y byddaf yn dangos creadigrwydd wrth chwarae.

Efallai y byddaf yn dangos ymwybyddiaeth o emosiynau eraill (gan gynnwys anifeiliaid) ac yn dynwared gweithredoedd wrth chwarae.

Efallai y byddaf yn rhannu fy llawenydd, brwdfrydedd neu rwystredigaeth wrth chwarae.

Efallai y byddaf yn mynegi fy nheimladau a'm syniadau wrth chwarae drwy fy ngweithredoedd e.e. tynnu llun, dawnsio neu chwarae byd bach.

# Adran 5: Rhestr Termau

| Saesneg | Cymraeg | Diffiniad |
|---|---|---|
| Self-regulation | Hunanreoleiddio | Gallu plentyn i ddeall a rheoli ei emosiynau, ei ymddygiadau a'i sylw mewn ffyrdd sy'n briodol i'r sefyllfa. |
| Holistic development | Datblygiad cyfannol | Y broses o feithrin pob agwedd ar dwf plentyn – corfforol, emosiynol, cymdeithasol a deallusol – i gefnogi ei lesiant cyffredinol a'i helpu i gyrraedd ei lawn botensial. |
| Belonging | Perthyn | Ymdeimlad plentyn o gael ei dderbyn, ei werthfawrogi a'i gynnwys yn ei amgylchedd – boed hynny gartref, mewn lleoliad gofal plant neu yn y gymuned ehangach. |
| Authentic play | Chwarae dilys | Chwarae sydd wedi'i ysgogi gan y plentyn, sy'n ystyrlon ac yn ymgysylltiol iawn, gan alluogi plant i archwilio, creu a dysgu mewn ffyrdd sy'n naturiol ac yn berthnasol i'w bywydau. |
| Teachable moments | Cyfleoedd dysgu digymell | Digwyddiadau neu brofiadau annisgwyl neu heb eu cynllunio sy'n cynnig cyfle i ddysgu. Maent yn rhoi cyd-destun ystyrlon i oedolion gyflwyno neu ymhelaethu ar rywbeth sy'n ennyn chwilfrydedd y plentyn. |
| Unconscious bias | Rhagfarn ddiarwybod | Rhagfarn anfwriadol neu farn ddi-sail o blaid neu yn erbyn un peth, person neu grŵp o gymharu ag un arall, mewn ffordd sy'n cael ei hystyried yn annheg fel arfer. |
| Spontaneous observations | Arsylwadau digymell | Arsylwadau sy'n digwydd yn naturiol a heb eu cynllunio, gan nodi ymddygiad, gweithredoedd neu ryngweithio plentyn wrth iddynt ddigwydd mewn amser real. |

| Saesneg | Cymraeg | Diffiniad |
|---|---|---|
| Planned observations | Arsylwadau wedi'u cynllunio | Arsylwadau sydd wedi'u hamserlennu ac sy'n fwriadol, yn aml yn canolbwyntio ar ymddygiadau penodol neu gerrig milltir datblygiadol. |
| Additional Support | Cymorth ychwanegol | Cymorth ychwanegol wedi'i deilwra i helpu i gynnig cyfle dysgu neu ddatblygu i blentyn y gall fod yn wynebu rhwystrau, gan sicrhau ei fod yn cael cyfleoedd cyfartal i dyfu, i ymgysylltu ac i lwyddo. |
| Transitional object | Gwrthrych pontio | Rhywbeth sy'n rhoi cysur a thawelwch meddwl i blentyn wrth iddo bontio o un lle i'r llall, er enghraifft doli, tedi neu flanced. |
| Mouthing | Cegbrofi | Cam datblygu yw cegbrofi lle mae babanod a phlant bach yn rhoi gwrthrychau yn eu cegau er mwyn dysgu am eu gwead, eu blas, eu tymheredd a nodweddion eraill. Mae'n rhan hanfodol o'u datblygiad synhwyraidd ac yn helpu babanod a phlant bach i ddeall y byd o'u cwmpas. |
| Proprioception | Propriodderbyniaeth | Propriodderbyniaeth yw'r ymdeimlad o ymwybyddiaeth o'r corff ac o ofod sy'n ein galluogi i amgyffred a rheoli symudiadau'r corff. Ar gyfer babanod a phlant bach, mae propriodderbyniaeth yn chwarae rhan hanfodol mewn datblygiad echddygol ac integreiddio synhwyraidd, gan helpu plant i wella eu cydbwysedd, eu cydsymud a rheolaeth gyffredinol o'u cyrff. |
| Object permanence | Sefydlogrwydd gwrthrych | Mae'n disgrifio gallu babi neu blentyn bach i wybod bod gwrthrychau'n parhau i fodoli er na ellir eu gweld na'u clywed mwyach. Er enghraifft, mae'r gêm "pi-po" yn enghraifft o hyn |
| Accountability measure | Mesur atebolrwydd | Mae dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer coladu data at ddibenion adrodd awdurdodau lleol sy'n cofnodi a yw plant yn gwneud cynnydd a ph'un a yw lleoliadau yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. |

| Saesneg | Cymraeg | Diffiniad |
|---|---|---|
| Linear | Llinellol | Gwneud cynnydd mewn llinell syth, ragweladwy a threfnus, lle mae pob cam yn dilyn yn daclus ac yn ddilyniannol ar ôl yr un blaenorol. (Gall twf, dysgu a datblygiad babanod a phlant bach fod yn anwadal – gyda hyrddiau, seibiannau a llamau yn ôl ac ymlaen. Gall babanod a phlant ifanc feithrin sgiliau gwahanol ar adegau gwahanol neu mewn trefn wahanol.) |
| Attend and Respond | Sylwi ac ymateb | Mae'n cyfeirio at broses ddwyran sy'n sail i ddull cyfathrebu dwyffordd. Ystyr 'sylwi' yw bod y babi neu'r plentyn bach yn sylwi ar rywbeth neu rywun neu'n cymryd sylw ohono. E.e. Troi ei ben neu ei lygaid tuag at lais neu sain, gan edrych ar wyneb person pan fydd yn siarad, gwylio gwrthrych, dangos diddordeb yng ngweithredoedd plentyn arall neu stori yn cael ei darllen yn uchel.<br><br>Ystyr 'ymateb' yw pan fydd y babi neu'r plentyn ifanc yn ymateb neu'n cyfathrebu'n ôl mewn rhyw ffordd. E.e. Gwneud cyswllt llygad, gwenu, parablu neu wneud seiniau, defnyddio ystumiau, fel pwyntio neu chwifio, defnyddio geiriau neu ymadroddion byr i ymateb, dynwared yr hyn y mae rhywun yn ei ddweud neu'n ei wneud. |
| Tune into | Tiwnio i mewn | Cymryd sylw agos a bod yn ymwybodol o'r hyn y mae babanod a phlant bach yn ei deimlo, yr hyn sydd ei angen arnynt neu'r hyn maent yn ei ddangos drwy eu hymddygiad a'u dulliau cyfathrebu. Sylwi ar giwiau cynnil fel mynegiant wyneb, ystumiau neu dôn y llais ac ymateb yn briodol. |
| Transitions – both big and small | Pontio – mawr a bach | Mae'n cyfeirio at unrhyw newidiadau ym mywyd neu arferion babi neu blentyn bach:<br>• gallai cyfnodau pontio mawr gynnwys dechrau mewn lleoliad newydd, symud ystafelloedd neu leoliadau neu enedigaeth brawd neu chwaer<br>• gallai cyfnodau pontio bach gynnwys newidiadau o ddydd i ddydd fel symud o amser chwarae i amser bwyd, deffro o gwsg neu setlo i mewn ar ôl penwythnos gartref. |

| Saesneg | Cymraeg | Diffiniad |
|---|---|---|
| Equity | Tegwch | Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei drin yn deg a bod cyfleoedd, cymorth ac adnoddau ar gael iddo sydd wedi'u teilwra i'w anghenion unigol. |
| Cynefin | Cynefin | Y man lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r tirlun o'n cwmpas yn gyfarwydd, ac rydym yn cael tawelwch meddwl o adnabod y golygfeydd a'r seiniau. Cynefin yw'r ymdeimlad o gymuned, diwylliant, treftadaeth a hunaniaeth. Mae'n gysyniad cyfannol sy'n cwmpasu dimensiynau ffisegol, cymdeithasol, diwylliannol, ysbrydol ac economaidd lle. |
| Aha/Wow Moment | Moment Aha/Waw | Adeg ar hap y gellir arsylwi arni pan fydd plentyn yn dangos dealltwriaeth, gwybodaeth, sgil neu fynegiant emosiynol newydd. Gall y momentau hyn gynnwys sylweddoli rhywbeth yn sydyn ("aha") neu ddangos creadigrwydd, cyflawniad neu dwf personol amlwg ("waw"). Maent yn ddangosyddion allweddol o gynnydd gwybyddol, emosiynol neu ddatblygiadol ac maent yn tynnu sylw at gryfderau unigol a phrofiadau dysgu ystyrlon. |
| Risky Play | Chwarae mentrus | Mae chwarae mentrus yn cyfeirio at weithgareddau corfforol cyffrous a heriol sy'n galluogi plant bach i archwilio eu terfynau, i brofi eu galluoedd ac i ddysgu sut i reoli risg mewn amgylchedd diogel a chefnogol Nid yw'n golygu rhoi plant mewn perygl. Yn hytrach mae'n golygu rhoi cyfleoedd iddynt feithrin sgiliau pwysig fel hyder, cydnerthedd a datrys problemau. |
| Symbols | Symbolau | Babi neu blentyn bach yn dechrau sylwi ar siapiau, patrymau neu ddelweddau sydd ag ystyr yn eu chwarae ac ymateb iddynt – fel paru llun o anifail gyda thegan o'r anifail hwnnw, neu gydnabod bod rhai siapiau yn cyfateb. |
| Objects of reference | Gwrthrychau cylch gorchwyl | Defnyddio ‘gwrthrychau’ fel dull o gyfathrebu. Gellir defnyddio gwrthrychau ynghyd â geiriau. Er enghraifft; llyfr ar gyfer amser stori, gogls ar gyfer nofio stethosgop ar gyfer meddyg. |